TGAU (9-1)

eduqas
Part of WJEC

CBAC Eduqas TGAU (9-1) mewn

# ASTUDIAETHAU FFILM

ACHREDWYD GAN OFQUAL
DYNODWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

# MANYLEB

Addysgu o 2017
I'w ddyfarnu o 2019

Fersiwn 7 Mai 2025




wjec
cbac

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad. | 30 |
| 3 | Mae amrywiaeth o destunau ffilm wedi'u diweddaru i'w hasesu o 2024 ymlaen. | 4, 13-14 ac 17-18 |
| | Ychwanegwyd briff cynhyrchu diwygiedig i'w asesu o 2023 ymlaen. | 24 |
| | Atodiad B – Mae llinell amser y datblygiadau allweddol mewn ffilm a thechnoleg ffilm wedi'i diweddaru (i gynnwys 1995-2018) i'w hasesu o 2024 ymlaen. | 34 |
| 4 | Mae'r briffiau cynhyrchu a aseswyd am y tro olaf yn 2022 wedi'u dileu. | 23 |
| 5 | Mae'r ffilmiau a aseswyd am y tro olaf yn Haf 2023 wedi'u dileu | - |
| 6 | Diweddarwyd y  canllaw marcio a chyflwyno Asesiadau Di-arholiad (Cydran 3). | 20 |
| 7 | Dileu brawddeg mewn cysylltiad â diweddariadau cymedroli. | 29 |

# TGAU CBAC Eduqas (9-1) mewn ASTUDIAETHAU FFILM

## I'w haddysgu o 2017
## I'w dyfarnu o 2019

**Tudalen**


**Crynodeb o'r asesu** **2**

**Ffilmiau a osodwyd i'w hastudio** 3

**1. Cyflwyniad** **5**
1.1. Nodau ac amcanion 5
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant 6
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg 6

**2. Cynnwys y pwnc** 7
2.1 Cydran 1: Datblygiadau Allweddol mewn Ffilm o UDA 13
2.2 Cydran 2: Ffilm Fyd-eang – Naratif, Cynrychioliad ac Arddull Ffilm 17
2.3 Cydran 3: Cynhyrchu 21

**3. Asesu** 26
3.1 Amcanion asesu a phwysoli 26
3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad 27

**4. Gwybodaeth dechnegol** 31
4.1 Cofrestru 31
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl 31

**Atodiadau**
A: Ysgrifennu arbenigol ar ffilmiau a osodwyd i'w hastudio 32
B: Llinell amser datblygiadau allweddol mewn ffilm a thechnoleg ffilm 32
C: Cydran 3: Gridiau marcio 34


© WJEC CBAC Ltd.

# TGAU ASTUDIAETHAU FFILM

## CRYNODEB O'R ASESU

**Cydran 1: Datblygiadau Allweddol mewn Ffilm o UDA**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**
35% **o'r cymhwyster**

Mae'r gydran hon yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o **dair** ffilm o UDA a ddewiswyd o ystod o opsiynau.
Mae'r asesiad yn cynnwys **pedwar** cwestiwn ar **un** pâr o ffilmiau prif ffrwd o UDA ac **un** ffilm annibynnol o UDA:

**Adran A: Astudiaeth gymharol o ffilmiau o UDA**

- **un** cwestiwn mewn camau ar y **gyntaf** o'r pâr o ffilmiau a ddewiswyd (a gynhyrchwyd rhwng 1930 a 1960)
- **un** cwestiwn mewn camau ar yr **ail** o'r pâr o ffilmiau a ddewiswyd (a gynhyrchwyd rhwng 1961 a 1990)
- **un** cwestiwn yn gofyn am gymhariaeth o'r pâr o ffilmiau a ddewiswyd

**Adran B: Datblygiadau allweddol mewn** ffilm a thechnoleg ffilm

- **un** cwestiwn amlran ar ddatblygiadau mewn ffilm a thechnoleg ffilm

**Adran C: ffilm annibynnol o UDA**

- **un** cwestiwn ar un ffilm annibynnol o UDA.

**Cydran 2: Ffilm Fyd-eang: Naratif, Cynrychioliad ac Arddull Ffilm**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**
35% **o'r cymhwyster**

Mae'r gydran hon yn asesu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o **dair** ffilm fyd-eang a ddewiswyd o ystod o opsiynau.
Mae'r asesiad yn cynnwys **tri** chwestiwn mewn tair adran:

- **Adran A: un** cwestiwn mewn camau ar un ffilm fyd-eang Saesneg
- **Adran B: un** cwestiwn mewn camau ar un ffilm fyd-eang nad yw'n Saesneg
- **Adran C: un** cwestiwn mewn camau ar un ffilm gyfoes o'r DU.

**Cydran 3: Cynhyrchu**
**Asesiad Di-arholiad**
30% **o'r cymhwyster**

Mae'r gydran hon yn asesu'r gallu i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ffilm at gynhyrchiad a'i ddadansoddiad gwerthusol cysylltiedig. Mae'r dysgwyr yn cynhyrchu:

- **un** detholiad o ffilm yn seiliedig ar genre (**naill ai** o ffilm **neu** o sgript ffilm gyda'r sgript cysylltiedig)
- **un** dadansoddiad gwerthusol o'r cynhyrchiad, lle mae'r dysgwyr yn dadansoddi ac yn gwerthuso'u cynhyrchiad mewn perthynas â ffilmiau neu sgriptiau ffilm tebyg, sydd wedi'u cynhyrchu'n broffesiynol.

Bydd y cymhwyster llinol hwn ar gael i'w asesu ym mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2019.

**Rhif Cymhwyster** Ofqual (a restrir ar The Register): 603/0889/8

**Rhif Dynodi Cymwysterau Cymru (a restrir ar** QiW): **C00/1174/2**

© WJEC CBAC Ltd.

| **Ffilmiau sydd ar gael i'w hastudio (i'w hasesu o Haf 2024 ymlaen)** |
|---|
| **Cydran 1:** Datblygiadau Allweddol mewn Ffilm o UDA |
| Rhaid dewis **tair ffilm o UDA ar gyfer y gydran hon: un pâr** o ffilmiau prif ffrwd er cymhariaeth ac **un** ffilm annibynnol.<br><br>Rhaid i ddysgwyr ddewis **un** o'r **parau** canlynol o ffilmiau prif ffrwd ar gyfer **astudiaeth gymharol:**<br>• *Dracula (*Browning, UDA, 1931), U **a** *The Lost Boys (*Schumacher, UDA, 1987), 15<br>• *Singin' in the Rain* (Donen & Kelly, UDA, 1952), U **a** *Grease* (Kleiser, UDA, 1978), PG<br>• *Pillow Talk* (Gordon, UDA, 1959), U **a** *When Harry Met Sally* (Reiner, UDA, 1989), 15<br>• *Rebel without a Cause* (Ray, UDA, 1955), PG **a** *Ferris Bueller's Day Off* (Hughes, UDA, 1986), 12A<br>• *Invasion of the Body Snatchers* (Siegel, UDA, 1956), PG **ac** *E.T. the Extra-Terrestrial* (Spielberg, UDA, 1982), U<br><br>Rhaid i'r dysgwyr ddewis **un** o'r ffilmiau annibynnol canlynol:<br>• *Juno* (Reitman, UDA, 2007), 12<br>• *The Hurt Locker* (Bigelow, UDA, 2008), 15<br>• *Whiplash* (Chazelle, UDA, 2014), 15<br>• *Ladybird* (Gerwig, UDA, 2017*),* 15<br>• *The Hate U Give* (Tillman Jr. UDA, 2018), 12 |
| **Cydran 2: Ffilm Fyd-eang: Naratif**, Cynrychioliad ac Arddull Ffilm |
| Rhaid dewis **tair** ffilm ar gyfer y gydran hon:<br><br>Rhaid i ddysgwyr ddewis**:**<br>• **un** o'r **ffilmiau** byd-eang Saesneg canlynol:<br>    ◦ *Slumdog Millionaire* (Boyle, Y DU, 2008), 15<br>    ◦ *District 9* (Blomkamp, De Affrica, 2009), 15<br>    ◦ *The Babadook* (Kent, Awstralia, 2014), 15<br>    ◦ *The Breadwinner* (Twomey, Iwerddon, 2017), 12A<br>    ◦ *Jojo Rabbit* (Waititi, Seland Newydd, 2019), 15<br><br>• **un** o'r **ffilmiau byd-eang canlynol nad ydynt yn Saesneg**:<br>    ◦ *Tsotsi* (Hood, De Affrica, 2005), 15<br>    ◦ *The Wave (Gansel,* Yr Almaen, 2008), 15<br>    ◦ *Wadjda* (Al-Mansour, Saudi Arabia, 2012), PG<br>    ◦ *Girlhood* (Sciamma, Ffrainc, 2014), 15<br>    ◦ *The Farewell* (Lulu Wang, China/UDA, 2019), PG<br><br>• **un** o'r **ffilmiau cyfoes o'r DU** canlynol **(a gynhyrchwyd ers 2010)**:<br>    ◦ *Submarine* (Ayoade, Y DU, 2010), 15<br>    ◦ *Attack the Block* (Cornish, Y DU, 2011), 15<br>    ◦ *Skyfall* (Mendes, Y DU, 2012), 12<br>    ◦ *Rocks (*Gavron, Y DU, 2019), 12A<br>    ◦ *Blinded by the Light* (Chadha, Y DU, 2019), 12A. |

*Cyhoeddiad theatrig

*Cyfrifoldeb y ganolfan yw penderfynu ar ba adeg mewn cwrs TGAU mae ffilm a ddosbarthwyd fel 15, os bydd wedi ei dewis, yn cael ei hastudio.*

© WJEC CBAC Ltd.

# TGAU ASTUDIAETHAU FFILM

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Nodau ac amcanion

Mae ffilm yn rhan bwysig o fywydau llawer o bobl. Yn nodweddiadol, mae'r rhai sy'n dewis ei hastudio yn dod â brwdfrydedd a chynnwrf aruthrol at ffilm sy'n eu hysgogi'n barhaus yn eu hastudiaethau. Maent yn profi cyfrwng grymus sy'n ysbrydoli amrywiaeth o ymatebion, o'r emosiynol i'r myfyriol, wrth iddynt gael eu denu at gymeriadau, eu naratifau a'r materion mae ffilmiau'n eu codi. Gwraidd y grym hwnnw yw'r profiad clyweled cwmpasol y mae ffilm yn ei gynnig – profiad a all fanteisio ar sinematograffi, cyfansoddiad a lleoliadau trawiadol ynghyd â cherddoriaeth a sain grymus. Nid yw'n syndod bod llawer yn ystyried mai ffilm yw'r brif ffurf ar gelf dros y ganrif ddiwethaf a bod llawer yn teimlo ei bod yn bwysig astudio cyfrwng sydd wedi cael dylanwad mor arwyddocaol ar y ffordd mae pobl yn meddwl ac yn teimlo.

Cynlluniwyd y fanyleb CBAC Eduqas mewn TGAU Astudiaethau Ffilm i fanteisio ar frwdfrydedd dysgwyr dros ffilm a'u cyflwyno i amrywiaeth eang o brofiadau sinematig trwy ffilmiau sydd wedi bod yn bwysig yn natblygiad ffilm a thechnoleg ffilm. Bydd dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth o ffilm prif ffrwd o'r UDA trwy astudio un ffilm o'r 1950au ac un ffilm o ddiwedd yr 1970au a'r 1980au – drwy hyn maent yn ystyried dau gyfnod yn natblygiad Hollywood. Yn ychwanegol, byddant yn astudio ffilmiau mwy diweddar – ffilm annibynnol o UDA ynghyd â ffilmiau o Ewrop, yn cynnwys y DU, De Affrica ac Awstralia.

Mae'r ffilmiau gosod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru bob tair i bum mlynedd. Bydd canolfannau yn cael eu hysbysu o unrhyw ddiweddariadau i'r fanyleb trwy gylchlythyron a anfonir i ganolfannau.

Mae cynhyrchu'n rhan bwysig o'r fanyleb hon ac mae'n rhan annatod o astudiaeth dysgwyr o ffilm. Pwrpas astudio amrywiaeth o ffilmiau o nifer o wahanol gyd-destunau yw rhoi cyfle i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut mae ffilmiau'n cael eu llunio at eu prosesau eu hunain o wneud ffilmiau a sgriptio. Y bwriad yw y bydd hyn yn cefnogi dysgwyr wrth iddynt gynhyrchu ffilmiau a sgriptiau ffilm creadigol ynghyd â galluogi eu gwaith cynhyrchu i ddarparu safbwynt gwneuthurwr ffilmiau gwybodus ar ei astudiaeth ei hun o ffilm.

Mae'r astudiaeth academaidd o ffilm yn sefydledig erbyn hyn ac mae'r fframweithiau ar gyfer ei hastudio fwy neu lai'r un peth p'un ai ar lefel TGAU, UG, Safon Uwch neu mewn sefydliadau addysg uwch. Nod y fanyleb CBAC Eduqas mewn TGAU Astudiaethau Ffilm yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- y ffyrdd y mae ystyron ac ymatebion yn cael eu cynhyrchu trwy ffilm
- ystod o ffilmiau cyferbyniol, diwylliannol amrywiol o wahanol gyd-destunau cenedlaethol
- ffilm fel cyfrwng esthetig
- sut mae ffilmiau'n adlewyrchu'r cyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol y cânt eu llunio ynddynt

© WJEC CBAC Ltd.

- y berthynas rhwng ffilm a thechnoleg ffilm ar hyd yr amser.

Yn ychwanegol, mae'r fanyleb yn anelu at alluogi dysgwyr i gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ffilm at wneud ffilmiau neu sgriptio.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon. Bydd sgiliau mewn Cymaraeg, Llythrennedd a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster hwn. Ond bydd pob dysgwr yn dod ag elfen o sinelythrennedd gyda nhw a ddatblygwyd o'u plentyndod cynnar.

Cynlluniwyd y fanyleb hon i gynnig sylfaen ar gyfer astudiaeth ddilynol drwy annog dysgwyr i archwilio, trwy astudiaeth ffurfiol a'u cynyrchiadau eu hunain, sut mae ffilmiau'n cael eu llunio ynghyd â rôl y sgript ffilm yn y broses o gynhyrchu ffilmiau. Yn ogystal â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddaw i ran dysgwyr drwy eu hastudiaeth TGAU o ffilm, byddant hefyd yn datblygu ystod o sgiliau llythrennedd, cyfathrebu, dadansoddi, cynhyrchu, TG a sgiliau trosglwyddadwy eraill. Bydd hyn yn eu galluogi i symud yn eu blaen yn llwyddiannus i astudio ar lefel uwch, boed mewn Astudiaethau Ffilm, pynciau cysylltiedig eraill neu amgylcheddau gweithio. Ar gyfer y rhai nad ydynt eisiau mynd ymhellach gyda'r pwnc, mae'r fanyleb yn cynnig cwrs astudio cydlynol, cymelliadol a gwerthfawr yn ei hunan.

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn manyleb CBAC Eduqas mewn TGAU Astudiaethau Ffilm, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau amrywiaeth eang o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Caiff addasiadau rhesymol eu gwneud ar gyfer rhai dysgwyr fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. mae hawl gan ymgeiswyr i ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

**Trosolwg**

Mae manyleb CBAC Eduqas mewn TGAU Astudiaethau Ffilm yn dechrau gyda chynnwrf unigolion ynghylch cyfrwng clyweledol grymus, sy'n ganolog i gymdeithas a diwylliant heddiw. Cynlluniwyd y ffilmiau mae'r dysgwyr yn eu hastudio i fanteisio ar y brwdfrydedd hwnnw a'u hannog i ehangu eu gwybodaeth o ffilm a thechnoleg ffilm, o'r delweddau byw cyntaf a gyflwynwyd i gynulleidfaoedd yn 1895 i amgylchedd digidol ffilm gyfoes.

Mae gwaith cynhyrchu yn rhan hanfodol o'r fanyleb hon. Felly bydd y dysgwyr yn cael cyfle i greu eu ffilm neu sgript ffilm eu hunain trwy gynhyrchu detholiadau yn seiliedig ar genre. Bydd hyn yn eu galluogi i gymhwyso popeth maent wedi ei ddysgu ynglŷn â ffilm at wneud ffilmiau neu sgriptio ynghyd â rhoi persbectif gwneud ffilmiau ffres ar y ffilmiau a astudir.

Bydd y ffilmiau mae'r dysgwyr yn eu hastudio yn eu cyflwyno i ystod eang o ffilmiau o bob cwr o'r byd ynghyd â rhoi persbectif hanesyddol iddynt ar ffilm. Er enghraifft, bydd y ffilmiau o UDA maent yn canolbwyntio arnynt yn cynnwys ffilmiau prif ffrwd o'r gorffennol – ffilmiau a gynhyrchwyd yn y 1950au a diwedd y 1970au a'r 80au, dau gyfnod gwahanol yn natblygiad Hollywood. Trwy gymharu'r ffilmiau hyn, bydd dysgwyr yn gweld sut mae genres yn newid, sut mae'r cyd-destunau y cynhyrchir ffilmiau ynddynt yn effeithio ar ffilmiau, a sut mae elfennau fel sinematograffi a golygu yn newid ac yn datblygu Bydd ffilm ddiweddarach o'r UDA yn cael ei harchwilio trwy gynyrchiadau annibynnol – ffilmiau a gynhyrchwyd y tu allan i'r brif ffrwd, gan ganiatáu i'w gwneuthurwyr ffilmiau archwilio pynciau a materion llai confensiynol. Er bod profiad llawer o ddysgwyr o sinema yn debygol o gael ei reoli gan ffilm o UDA – mae ymhell dros 80% o'r ffilmiau a ddangosir yn sinemâu prif ffrwd y DU yn rhai Americanaidd – mae'r fanyleb hon yn cynnig y cyfle i archwilio ffilm a gynhyrchwyd y tu allan i UDA – yn Ewrop, yn cynnwys y DU, De Affrica ac Awstralia.

Bydd y fanyleb CBAC Eduqas hon yn galluogi dysgwyr i archwilio ffilmiau mewn ffordd gydlynol, gan ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn gronnus o:

- sut caiff ffilmiau eu llunio – trwy sinematograffi (gwaith camera a golau), mise-en-scène (sut mae setiau, lleoliadau, propiau a gwisgoedd yn cael eu defnyddio mewn ffilm), golygu a sain
- sut mae ffilmiau'n cael eu trefnu yn strwythurau – genre (y gwahanol fathau o ffilm) a naratif (sut mae ffilmiau'n dweud eu storïau)
- sut gall ffilmiau gael eu defnyddio – yn artistig (ansoddau esthetig ffilm) ac fel ffordd o gyflwyno syniadau a materion (cynrychioliad)
- sut mae dysgwyr yn gwneud synnwyr o ffilm trwy archwilio cyd-destunau perthnasol ffilm (cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol, gwleidyddol a sefydliadol), trwy ymwybyddiaeth o agweddau allweddol o hanes ffilm a thrwy ysgrifennu arbenigol ar ffilm.

© WJEC CBAC Ltd.

Bydd y dilyniant dysgu hwn – o elfennau allweddol ffurf ffilm i ddeall sut gall cyd-destunau ac ysgrifennu ar ffilm gryfhau dealltwriaeth – yn cael ei archwilio yn y fanyleb hon ar draws ystod o ffilmiau. Bydd dau faes astudio craidd yn cael eu hastudio mewn perthynas â'r holl ffilmiau:

- elfennau allweddol ffurf ffilm (sinematograffi, mise-en-scène, golygu a sain)
- cyd-destunau ffilm (cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol, technolegol, sefydliadol a, ble bo'n berthnasol, gwleidyddol).

Bydd i rai ffilmiau ffocws ychwanegol y tu hwnt i'r meysydd astudio craidd hyn:

- bydd y **ffilm** fyd-eang Saesneg yn canolbwyntio ar naratif hefyd
- bydd y **ffilm fyd-eang nad yw yn Saesneg** yn canolbwyntio ar gynrychioliad yn ogystal
- bydd **ffilm gyfoes o'r DU** yn canolbwyntio ar ansoddau esthetig hefyd – ei harddull
- bydd **ffilm annibynnol o UDA** yn cael ei hastudio mewn perthynas ag ysgrifennu arbenigol ar ffilm a osodwyd gan CBAC er mwyn galluogi myfyrwyr i gryfhau eu dealltwriaeth o ffilm
- bydd **cymhariaeth o ddwy ffilm o UDA** o'r gorffennol yn cael ei hastudio mewn ffordd holistaidd ond bydd yn canolbwyntio ar **gymharu'r** ffilmiau o ran **genre, naratif a chyd-destun**.

## Astudio ffilm: meysydd astudio craidd

Bydd dysgwyr yn astudio **pob un** o'u chwe ffilm yn defnyddio'r meysydd astudio craidd canlynol:

1. **Elfennau allweddol ffurf ffilm** (sinematograffi, mise-en-scène, golygu a sain)
2. **Cyd-destunau** ffilm (cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol, gwleidyddol, a sefydliadol), yn cynnwys agweddau allweddol o hanes ffilm a thechnoleg ffilm.

### 1. Elfennau allweddol ffurf ffilm

Gall ffilm gael ei harchwilio trwy ei manylion (er enghraifft, trwy'r elfennau technegol fel saethiadau unigol, lleoliadau, sain neu olygu, a ddefnyddir bob un i wneud ffilm) neu trwy'r ffyrdd y caiff y rhain eu trefnu'n strwythurau mwy (genre a naratif). Y ffordd ffurfiol o ddisgrifio'r elfennau technegol hyn yw sinematograffi (yn cynnwys golau), mise-en-scène, golygu a sain. Yn y fanyleb hon, ystyrir y rhain yn elfennau allweddol o ffurf ffilm. Mae'r gallu i ddadansoddi sut mae elfennau allweddol ffurf ffilm yn creu ystyr – ar wahân a gyda'i gilydd – yn sgìl craidd mewn Astudiaethau Ffilm ar bob lefel.

Bydd angen i ddysgwyr ddeall yr agweddau canlynol o sinematograffi, mise-en-scène, golygu a sain, a gallu eu harchwilio mewn perthynas â'r ffilmiau a astudir ganddynt:

© WJEC CBAC Ltd.

***Sinematograffi,*** yn cynnwys golau

- saethiadau camera, yn cynnwys agosluniau eithafol, agosluniau, saethiadau canolig, saethiadau hir, saethiadau hir eithafol, saethiadau uchel, isel ac ongl 60° (saethiadau allan o'r canol), saethiadau gogwydd ac awyr
- symudiad camera, yn cynnwys tremio, tracio, doli a defnyddio technoleg Steadicam
- golau, yn cynnwys safle a dwysedd
- fframio yn cael ei greu trwy bellter, ongl, lefel a symudedd a sut mae'n cyfeirio sylw'r gwyliwr
- yr ystyron nodweddiadol sy'n gysylltiedig â phob un o'r agweddau uchod o sinematograffi yn cynnwys golau
- sut mae pob un o'r uchod yn cyfrannu at bortreadu cymeriadau a lleoliadau
- sut gall sinematograffi gyfuno â mise-en-scène neu sain i danlinellu ystyr
- sut mae pob un o'r uchod yn ennyn ymatebion gan y gwyliwr

***Mise-en-scène***

- lleoliadau, propiau, gwisgoedd a cholur
- yr ystyron nodweddiadol sy'n gysylltiedig â phob un o'r agweddau uchod agweddau o mise-en-scène
- sut mae mise-en-scène yn cyfleu realaeth yn gonfensiynol
- sut mae lleoliadau'n cyfrannu at y themâu a'r materion y mae ffilm yn eu codi
- sut mae propiau'n cyfrannu at ddatblygu cymeriad a/neu naratif yn y ffilmiau a astudir
- sut mae gwisgoedd a cholur yn cyfleu cymeriad
- sut mae pob un o'r agweddau uchod o mise-en-scène yn ennyn ymatebion gan y gwyliwr

***Golygu***

- mathau o olygu (torri, toddi, pylu)
- egwyddorion golygu dilyniant (saethiad-saethiad cildroi)
- trawsbynciol; trawsbleidiol
- cyflymder golygu
- effeithiau gweledol (wedi eu creu wrth ôl-gynhyrchu)
- yr ystyron nodweddiadol sy'n gysylltiedig â phob un o'r agweddau uchod o olygu
- sut mae golygu dilyniant yn sefydlu perthnasoedd rhwng cymeriadau
- sut mae croes-dorri'n cyfrannu at bortreadu cymeriad
- sut mae golygu'n cyfrannu at ddatblygu naratif yn y ffilmiau a astudir
- sut mae golygu, yn cynnwys effeithiau gweledol, yn cynhyrchu ymatebion gan y gwyliwr

***Sain***

- sain gynefin ac anghynefin, yn cynnwys sain awyrgylchol, effeithiau sain a phontydd sain
- yr ystyron nodweddiadol sy'n gysylltiedig â sain gynefin yn cynnwys sut mae'n cyfrannu at ddatblygu cymeriad a naratif
- yr ystyron nodweddiadol sy'n gysylltiedig â sain anghynefin yn cynnwys sut mae motiffau cerddoriaeth yn cyfleu cymeriad a sut mae gwahanol fathau o gerddoriaeth yn cyfrannu at y naratif
- sut mae sain anghynefin yn benodol yn cyfrannu at y themâu a'r materion mae ffilm yn eu codi
- sut mae sain, yn enwedig cerddoriaeth, boed cynefin neu anghynefin, yn ennyn ymatebion gan y gwyliwr i'r ffilmiau a astudir.

© WJEC CBAC Ltd.

**2. Cyd-destunau** ffilm

Mae'r cyd-destunau amrywiol y caiff ffilm ei chynhyrchu ynddynt yn dylanwadu arni. Mae ffilmiau'n adlewyrchu ac yn ymateb i'r cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol, technolegol a sefydliadol maent wedi eu gwneud o'u mewn, boed y presennol neu'r gorffennol (y cyd-destun hanesyddol). Ar wahân i gyd-destunau sefydliadol a thechnolegol, naratif y ffilm sy'n adlewyrchu cyd-destunau ffilm yn fwyaf amlwg. Pan mae'r ffilmiau wedi eu gosod yn y gorffennol, fel *Singin' in the Rain, Grease* a *Dracula* yn y fanyleb hon, dylai dysgwyr ganolbwyntio ar gyd-destunau'r naratif (pryd cafodd y ffilm ei gosod). Mae gweld y berthynas rhwng eu ffilmiau dewisol a hanes ffilm a thechnoleg ffilm yn gyd-destun pwysig arall mae angen i ddysgwyr ei ystyried.

Felly bydd angen i ddysgwyr astudio sut mae eu ffilmiau dewisol yn adlewyrchu'r cyd-destunau maent wedi eu gwneud ynddynt. Mae hyn yn cynnwys astudio'r:

- cyd-destun cymdeithasol (agweddau o gymdeithas a'i strwythur a adlewyrchir yn y ffilm)
- cyd-destun diwylliannol (agweddau o ddiwylliant – ffyrdd o fyw, credau a gwerthoedd grwpiau o bobl – a adlewyrchir yn y ffilm)
- cyd-destun hanesyddol (agweddau o gymdeithas a diwylliant ar yr adeg pan gafodd y ffilmiau eu gwneud a, ble bo'n berthnasol, pryd cawsant eu gosod)
- cyd-destun gwleidyddol (y ffordd y mae materion gwleidyddol, ble maent yn berthnasol i'r ffilm a ddewiswyd, yn cael ei adlewyrchu mewn ffilm)
- cyd-destun technolegol (y technolegau a adlewyrchir wrth gynhyrchu ffilm ac, mewn rhai achosion, yn ei naratif)
- cyd-destun sefydliadol (sut caiff ffilmiau eu hariannu, sut mae lefel y gyllideb gynhyrchu'n effeithio ar y math o ffilm a wneir a'r prif gamau wrth gynhyrchu ffilm)
- agweddau allweddol o hanes ffilm a thechnoleg ffilm (fel y'i nodir isod).

Bydd angen i ddysgwyr gael eu cyflwyno i'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol yn hanes ffilm a thechnoleg ffilm, a fydd yn cynnwys y canlynol o leiaf:

- y delweddau byw cyntaf a ffilm fud
- twf Hollywood a datblygiad sain
- ymddangosiad ffilm lliw
- ymddangosiad technoleg sgrin lydan a ffilm 3D
- datblygiad camerâu cludadwy a thechnoleg Steadicam
- rôl delweddau drwy gymorth cyfrifiadur mewn ffilm.

Gweler Atodiad B am linell amser o'r datblygiadau allweddol mewn ffilm a thechnoleg ffilm.

## Astudio ffilm: meysydd astudio ychwanegol

Bydd **pedwar** maes astudio ychwanegol yn darparu'r ffocws ar gyfer astudio:

3. **Naratif** (elfen strwythurol ffurf ffilm): ffilm fyd-eang Saesneg
4. **Cynrychioliad pobl a chymunedau:** Ffilm fyd-eang nad yw yn Saesneg
5. **Arddull ffilm** – ansoddau esthetig ffilm: ffilm gyfoes o'r DU
6. **Ysgrifennu arbenigol ar** ffilm, yn cynnwys adolygu ffilm: ffilm annibynnol o UDA

© WJEC CBAC Ltd.

**3. Naratif** (elfen strwythurol ffurf ffilm): **ffilm fyd-eang Saesneg**

Mae’r ffordd y mae elfennau allweddol ffurf ffilm yn cael eu trefnu yn strwythurau mwy, genre a naratif, yn ymwneud ag astudio ffilmiau yn eu cyfanrwydd. Tra bydd genre yn cael ei astudio mewn perthynas â'r astudiaeth gymharol o ffilm o UDA, caiff naratif ei astudio fel maes ffocws mewn perthynas â ffilm fyd-eang Saesneg. Bydd angen i ddysgwyr ddeall hefyd sut mae naratifau'n cael eu llunio a gallu adnabod rôl y sgript ffilm wrth sefydlu prif nodweddion naratif ffilm fel y'i nodir isod:

- y gwahaniaeth rhwng plot a stori
- rôl y sgript ffilm wrth gyfleu plot a'i sylweddu mewn termau gweledol
- achos ac effaith fel un o egwyddorion strwythurol naratif
- technegau naratif yn cynnwys elipsis a chelu/rhyddhau
- confensiynau naratif mewn sgriptio yn cynnwys y strwythur tair act, pwyntiau plot, digwyddiad annog ac uchafbwynt
- dehongliad o'r naratif
- rôl cymeriad a swyddogaeth cymeriad mewn naratif
- sut mae pob un o'r pwyntiau bwled uchod yn cyfrannu at ddatblygu naratif
- themâu a materion a godir gan y naratif
- sut mae naratif yn ennyn ymatebion gan y gwyliwr.

**4. Cynrychioliad pobl a chymunedau: Ffilm fyd-eang nad yw yn Saesneg**

Nid yw'r delweddau sy'n ffurfio sail ffilm fyth yn 'lluniau o realiti’ yn syml, ond maent bob amser yn cynnig safbwyntiau ynglŷn â'r hyn maent yn ei bortreadu. Dyma yw gwraidd yr astudiaeth o gynrychioliad a bydd angen i ddysgwyr astudio arwyddocâd gwahanol gynrychioliadau yn y ffilmiau maent yn eu hastudio. Bydd angen iddynt archwilio sut mae eu ffilmiau dewisol yn cynrychioli, ac felly yn cynnig persbectifau penodol ar rywedd, ethnigrwydd, oedran a diwylliannau gwahanol.

**5. Arddull ffilm** – ansoddau esthetig ffilm: **ffilm gyfoes o'r DU**

Er nad yw hyn bob amser yn cael ei bwysleisio, mae ffilm yn ffurf gelf. Felly mae astudio ansoddau esthetig ffilm yn ymwneud ag ystyried sut mae pob agwedd o ffurf ffilm yn cael eu cyfuno'n artistig. Wrth archwilio ansoddau esthetig ffilm, gall dysgwyr ystyried, er enghraifft, saethiadau unigol, eu cyfansoddiad a mise-en-scène yn gyffredinol. Mewn rhai achosion, mae'r elfennau hyn yn cael eu defnyddio drwy'r holl ffilm gan greu 'golwg' neu arddull unigryw. P'un ai fod effeithiau esthetig yn enydol neu p'un ai fod golwg esthetig unigryw i ffilm gyfan, bydd dysgwyr yn ystyried ble mae'r 'sbectacl' o ffilm yn ysbrydoli gwylwyr yn fwy na naratif y ffilm.

Mae disgwyl i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- ansoddau esthetig ffilm
- eu harwyddocâd
- sut mae gwneuthurwyr ffilmiau yn creu effeithiau esthetig trwy ddilyniannau ffilm penodol.

**6. Ysgrifennu arbenigol ar ffilm, yn cynnwys adolygu ffilm: ffilm annibynnol o UDA**

Er mwyn datblygu ac ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ffilm, mae'n rhaid i ddysgwyr astudio ysgrifennu arbenigol ar ffilm, yn cynnwys adolygu ffilm. Caiff yr ysgrifennu arbenigol hwn ei astudio'n benodol mewn perthynas â ffilm annibynnol o UDA a bydd yn cael ei osod gan CBAC. Bydd yn cynnwys:

- un ffynhonnell ar sinematograffi

© WJEC CBAC Ltd.

- un ffynhonnell ar ffilm annibynnol o UDA
- un adolygiad o ffilm (gosodir un adolygiad ar bob un o'r pum ffilm annibynnol a osodwyd gan CBAC).

Mae rhestr o'r ysgrifennu arbenigol a osodwyd i gefnogi astudiaeth y dysgwyr o'r ffilm annibynnol o'u dewis o UDA ar gael ar wefan Eduqas TGAU Astudiaethau Ffilm. Gweler Atodiad A.

## **Astudiaeth integredig o** ffilm, yn cynnwys genre: **astudiaeth gymharol o ffilm o UDA**

Bydd y meysydd astudio hyn yn cael eu trin mewn ffordd synoptig, integredig, drwy astudiaeth gymharol o ddwy ffilm o UDA o'r gorffennol – un o'r 1930au neu'r 1950au a'r llall o'r 1970au neu'r 1980au. Tra bydd yr astudiaeth gymharol yn dod â'r meysydd astudio at ei gilydd, bydd y pwyslais ar gymharu genre, naratif a chyd-destunau fel a ganlyn:

- elfennau strwythurol ffurf ffilm (genre a naratif)
- cyd-destunau perthnasol ffilm, yn cynnwys cyfeirio at y ffordd mae ffilmiau'n adlewyrchu datblygiadau arwyddocaol yn hanes ffilm
- elfennau allweddol ffurf ffilm (sinematograffi, mise-en-scène, golygu a sain)
- cynrychioliad
- nodweddion esthetig ffilm.

### Genre: elfen strwythurol o ffurf ffilm:

Bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth o genre mewn perthynas â'r astudiaeth gymharol o UDA, ble bydd pob pâr o ffilmiau'n adlewyrchu genre penodol. Trwy eu dewis o ffilmiau, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r canlynol:

- y cysyniad o genre
- confensiynau genre seiliedig ar eiconograffeg, yn cynnwys mise-en-scène, cymeriadau, naratifau a themâu
- arwyddocâd genre i gynhyrchwyr ffilmiau ac i gynulleidfaoedd ffilmiau.

## Dewis ffilmiau i'w hastudio

Er bod yn rhaid astudio pob un o'r ffilmiau dewisol mewn perthynas â'r meysydd astudio craidd a'r meysydd ffocws ychwanegol a nodwyd uchod, mae'r ffilmiau wedi cael eu dewis i greu cysylltiadau ar draws y fanyleb ac i alluogi athrawon i ddatblygu gwahanol fathau o strwythurau cwrs cydlynol. Er enghraifft, mae ffilmiau ffuglen wyddonol yn ymddangos mewn nifer o setiau o opsiynau; mae nifer o ffilmiau'n cynnwys pobl ifanc; ac mae dwy ffilm wedi cael eu cynhyrchu yn Ne Affrica (*District 9* a *Tsotsi*). Yn yr un modd, mae amrywiaeth o wahanol gymdeithasau a diwylliannau'n cael eu cynrychioli yn y dewis o ffilmiau. Fel hyn gellir cyflwyno dysgwyr i:

- ffilmiau prif ffrwd o UDA o wahanol gyfnodau yn y gorffennol ar y cyd â ffilmiau annibynnol mwy diweddar o UDA.
- ffilmiau o'r DU yn darparu safbwyntiau cyferbyniol o'r DU, yn y gorffennol a'r presennol
- ffilmiau a leolir yn Ne Affrica, Seland Newydd, Awstralia, Tsieina, Saudi Arabia ac India, sy'n datgelu agweddau o'u cymdeithasau a'u diwylliannau
- ffilm o'r Almaen ac o Ffrainc, sy'n cynnig gwahanol safbwyntiau ar gymdeithas a diwylliant Ewrop

© WJEC CBAC Ltd.

## 2.1 Cydran 1

Datblygiadau Allweddol mewn Ffilm o UDA
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
35% o'r cymhwyster
70 marc

**Cynnwys**

Bydd dysgwyr yn astudio **tair ffilm o UDA** ar gyfer y gydran hon:

- **un** astudiaeth gymharol o bâr o ffilmiau genre prif ffrwd (o blith dewis o bum pâr). Mae pob pâr o ffilmiau yn cynnwys **un** ffilm a gynhyrchwyd rhwng 1930 ac 1960 ac **un** ffilm a gynhyrchwyd rhwng 1961 ac 1990
- **un** ffilm annibynnol, o blith dewis o bum ffilm ddiweddar.

Yn ychwanegol, bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth o ddatblygiadau allweddol yn hanes ffilm a thechnoleg ffilm.

Rhaid astudio pob ffilm mewn perthynas â'r meysydd astudio craidd a ddisgrifir yn fanwl yn y cyflwyniad i'r adran hon:

1. elfennau allweddol ffurf ffilm (sinematograffi, mise-en-scène, golygu a sain)
2. cyd-destunau ffilm (cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol, gwleidyddol, technolegol a sefydliadol), yn cynnwys agweddau allweddol o hanes ffilm a thechnoleg ffilm

Fodd bynnag, fel y nodir yn y cyflwyniad i'r adran hon, bydd yr astudiaeth gymharol o ffilm o'r UDA yn dod â'r meysydd astudio at ei gilydd tra bydd genre, naratif a chyd-destun yn cael blaenoriaeth. Felly bydd y ddwy ffilm ddewisol yn cael eu hastudio mewn ffordd synoptig. Caiff y ffilm annibynnol o'r UDA ei hastudio mewn perthynas â'r meysydd astudio craidd gyda ffocws ar ysgrifennu arbenigol.

**Opsiynau ffilm a'u ffocws**

***(a) Astudiaeth gymharol o ffilmiau o UDA***

Rhaid i ddysgwyr ddewis **un** pâr o ffilmiau i'w cymharu o blith y dewisiadau canlynol:

- Dracula (Browning, UDA, 1931), U a The Lost Boys (Schumacher, UDA, 1987), 15
- *Singin' in the Rain* (Donen & Kelly, UDA, 1952), U *a* Grease (Kleiser, UDA, 1978), PG
- *Rebel without a Cause* (Ray, UDA, 1955), PG a Ferris Bueller's Day Off (Hughes, UDA, 1986), 12A
- Pillow Talk (Gordon, UDA, 1959), U a When Harry Met Sally (Reiner, UDA, 1989), 15
- *Invasion of the Body Snatchers* (Siegel, UDA, 1956), PG *a* E.T. the Extra-Terrestrial (Spielberg, UDA, 1982), U.

*Cyhoeddiad theatrig

© WJEC CBAC Ltd.

Mae'r astudiaeth gymharol hon yn galluogi dysgwyr i gymharu un ffilm a gynhyrchwyd yn Hollywood rhwng 1930-1960 gydag un ffilm Hollywood o ddiwedd y 1970au a'r 1980au. Bydd y pwyslais yn yr astudiaeth gymharol ar genre, naratif a chyd-destun.

Mae pob astudiaeth gymharol yn cynnig dwy ffilm yn yr un genre (e.e. ffilm arswyd, sioe gerdd, comedi rhamantus, ffilm arddegwyr a'r genre ffuglen wyddonol.) Felly bydd pob dewis yn galluogi dysgwyr i astudio sut mae genres yn datblygu ac yn newid. Mae pob pâr o ffilmiau hefyd yn delio â themâu tebyg, yn codi o'u genres: e.e : e.e. materion yn ymwneud â hunaniaeth, daioni yn trechu drygioni, cariad a chariad yn trechu adfyd, arddegwyr yn gwrthryfela yn erbyn pob ffurf o awdurdod ac ofni'r hyn sy'n anghyfarwydd neu'n 'estron'. Felly bydd dysgwyr hefyd yn gallu archwilio sut mae'r un themâu'n cael eu trin mewn dwy ffilm wahanol o gyfnodau hanesyddol gwahanol.

Mae pob cymhariaeth yn adlewyrchu cymdeithas yn UDA ar adeg gwneud y ffilmiau – yn yr 1930au a'r 1950au a diwedd yr 1970au a'r 1980au. Er enghraifft, mae Dracula a The Lost Boys yn dangos sut datblygodd y genre fampirod a'r sylwebaethau cymdeithasol a beirniadaethau sy'n gysylltiedig â'i themâu Mae Singin' in the Rain a Grease yn edrych nôl ar gyfnodau hanesyddol cynharach tra bod Pillow Talk a When Harry Met Sally yn delio â rhamant a rolau'r rhywiau. Gallai'r rhain gael eu hystyried yn rhywbeth tanseiliol yn ystod cyfnod gwneud y ffilmiau. Mae'r ddau 'rebel heb achos', sy'n ymddangos yn *Rebel without a Cause* a *Ferris Bueller's Day Off*, yn herio gwahanol fathau o awdurdod tra bod *Invasion of the Body Snatchers* ac *E.T. the Extra-Terrestrial* yn dangos agweddau trawiadol o wahanol tuag at 'estroniaid'. Mae *Invasion of the Body Snatchers* yn adlewyrchu gofidion am gomiwnyddiaeth tra bod *E.T. the Extra-Terrestrial* yn hyrwyddo derbyn gwahaniaeth.

***(b) Datblygiadau allweddol mewn ffilm a thechnoleg ffilm***

Caiff pob ffilm ei hastudio mewn perthynas â datblygiadau allweddol mewn ffilm a thechnoleg ffilm – i ddarparu cyd-destun ar gyfer eu hastudiaeth o ffilm ac i ddeall sut mae eu ffilmiau dewisol yn adlewyrchu datblygiadau allweddol yn hanes ffilm a thechnoleg ffilm. Bydd hi'n ofynnol i ddysgwyr ennill gwybodaeth o:

- y delweddau byw cyntaf a ffilm fud
- twf Hollywood a datblygiad sain
- ymddangosiad ffilm lliw
- ymddangosiad technoleg sgrin lydan a ffilm 3D
- datblygiad camerâu cludadwy a thechnoleg Steadicam
- rôl delweddau drwy gymorth cyfrifiadur mewn ffilm.

Gweler Atodiad B am fwy o fanylion.

***(c) Ffilm annibynnol o UDA*** – ffocws ar ysgrifennu arbenigol ar ffilm
Rhaid i ddysgwyr ddewis un o'r opsiynau canlynol:

- *Juno* (Reitman, UDA, 2007), 12
- *Hurt Locker* (Bigelow, UDA, 2008), 15
- *Whiplash* (Chazelle, UDA, 2014), 15
- Ladybird (Gerwig, UDA, 2017), 15
- *The Hate U Give* (Tillman Jr. UDA, 2018), 12

© WJEC CBAC Ltd.

Mae Juno, Whiplash, The Hate U Give a Ladybird yn gosod pobl iau a'u profiadau yng nghanol y llwyfan. Mae The Hate U Give yn archwilio themâu cyd-destunol hiliaeth a gwahaniaeth cymdeithasol Mae *Juno* yn canolbwyntio ar ferch yn ei harddegau sy'n annibynnol ei meddylfryd wrth iddi wynebu beichiogrwydd annisgwyl a'i ganlyniadau, tra bod *Whiplash* yn canolbwyntio ar gerddor sy'n cael ei erlid gan alwadau pedantaidd ei athro. Stori glasurol am ddod i oed yw Ladybird sy'n delio â gwrthdaro â rhieni. Yn The Hurt Locker mae archwiliad o wrywdod yng nghyd-destun rhyfel. Fel gyda phob opsiwn ffilm, mae'r ffilmiau a gynigir i'w hastudio yn sinematig mewn ffyrdd cyferbyniol a byddant yn galluogi dysgwyr i archwilio sut mae ffilmiau'n cael eu saethu a'u creu. Felly bydd y ddau faes astudio craidd yn cael eu hastudio mewn perthynas â ffilm annibynnol o UDA gyda ffocws ychwanegol ar ysgrifennu arbenigol ar ffilm, yn cynnwys adolygu ffilm.

***Ysgrifennu arbenigol ar ffilm, yn cynnwys adolygu ffilm***
Er mwyn datblygu ac estyn eu gwybodaeth o ffilm, bydd hi'n ofynnol i ddysgwyr astudio **tair** prif ffynhonnell o ysgrifennu arbenigol ar ffilm, yn cynnwys adolygu ffilm, mewn perthynas â'r testun hwn:

- un ffynhonnell ar sinematograffi
- un ffynhonnell ar ffilm annibynnol o UDA
- un adolygiad o ffilm (gosodir un adolygiad ar bob un o'r pum ffilm annibynnol a osodwyd gan CBAC).

Cyhoeddir y rhestr o ffynonellau ar wefan ddiogel CBAC a bydd yn ddilys am o leiaf tair blynedd. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau yn ymddangos ar wefan CBAC Eduqas a rhoddir y manylion ar y wefan ddiogel trwy gylchlythyrau.

**Asesu**
Arholiad ysgrifenedig
1 awr 30 munud
70 marc

Mae'r ymgeiswyr yn ateb **pum** prif gwestiwn a drefnir mewn tair adran.

Bydd Adrannau A ac C yn asesu amcan asesu 1 (AA1), y gallu i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth, ac amcan asesu 2 (AA2), y gallu i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth. Bydd Adran B yn asesu amcan asesu 1 (AA1), y gallu i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth. Am fwy o fanylion ar yr amcanion asesu, gweler Adran 3.

**Adran A: Astudiaeth gymharol o ffilm o UDA (50 marc)**

- **Cwestiwn 1:** un cwestiwn mewn camau ar y gyntaf o'r pâr dewisol o ffilmiau (a gynhyrchwyd rhwng 1930 a 1960), yn asesu AA1 yn rhannau (a) a (b) ac AA1 ac AA2 yn rhan (c).
- **Cwestiwn 2:** un cwestiwn mewn camau ar yr ail o'r pâr dewisol o ffilmiau (a gynhyrchwyd rhwng 1961 a 1990), yn asesu AA1 yn rhannau (a) a (b) ac AA1 ac AA2 yn rhan (c).
- **Cwestiwn 3:** un cwestiwn yn gofyn am gymhariaeth o'r pâr dewisol o ffilmiau yn asesu AA2 yn unig, y gallu i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth trwy gymharu.

**Adran B: Datblygiadau allweddol mewn ffilm a thechnoleg ffilm (5 marc)**

- **Cwestiwn 4:** un cwestiwn ateb byr aml-ran, yn asesu'r wybodaeth o ddatblygiadau allweddol mewn ffilm a thechnoleg ffilm, yn asesu AA1.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran C: Ffilm annibynnol o UDA (15 marc)**

- **Cwestiwn 5:** un cwestiwn ar y ffilm annibynnol ddewisol o UDA yn asesu AA1 ac AA2, ymateb ysgrifennu estynedig.
- *Noder: bydd y gallu i* archwilio a dadansoddi (AA2) yn cael ei wobrwyo’n uwch na'r gallu i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth (AA1) yng nghwestiwn 5.

Caiff y gallu i ddefnyddio iaith ffilm arbenigol yn briodol ei asesu yng nghwestiynau 1 (c), 2 (c), 3 a 5, ymatebion ysgrifennu estynedig.

Ar gyfer Adran A, gall y cwestiynau gael eu seilio ar unrhyw agwedd ar y meysydd astudio craidd a ffocws a ddisgrifir yn fanwl yn y cyflwyniad i adran 2. Bydd Cwestiwn 3 yn asesiad blaendirol o genre, naratif a chyd-destunau.

Bydd Adran B yn cynnwys cwestiynau ateb byr gwerth un a dau farc, yn asesu'r wybodaeth o ddatblygiadau allweddol mewn ffilm a thechnoleg ffilm fel y'u disgrifir yn y fanyleb.

Ar gyfer Adran C, bydd y cwestiynau'n seiliedig ar y meysydd astudio craidd a'r maes ffocws, ysgrifennu arbenigol ar ffilm.

© WJEC CBAC Ltd.

## 2.2 Cydran 2

**Ffilm Fyd-eang: Naratif**, Cynrychioliad ac Arddull Ffilm
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
35% o'r cymhwyster
70 marc

**Cynnwys**

Bydd rhaid i ddysgwyr astudio **tair** ffilm o'r tu allan i UDA ar gyfer y gydran hon:

- **un** ffilm fyd-eang Saesneg, o blith dewis o dair, a gynhyrchwyd y tu allan i UDA
- **un** ffilm fyd-eang nad yw yn Saesneg, o blith dewis o dair
- **un** ffilm o'r DU, o blith dewis o dair, a gynhyrchwyd ers 2010.

Fel gyda Chydran 1, rhaid astudio'r holl ffilmiau mewn perthynas â'r meysydd astudio craidd a ddisgrifir yn fanwl yn y cyflwyniad i'r adran hon:

1. elfennau allweddol ffurf ffilm (sinematograffi, mise-en-scène, golygu a sain)
2. cyd-destunau ffilm (cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol, gwleidyddol, technolegol a sefydliadol) yn cynnwys agweddau allweddol o hanes ffilm a thechnoleg ffilm.

Yn ychwanegol, caiff pob ffilm ddewisol ei hastudio mewn perthynas â'r maes ffocws ychwanegol: naratif (ffilm fyd-eang Saesneg), cynrychioliad (ffilm fyd-eang nad yw yn Saesneg)
ac ansoddau esthetig ffilm (ffilm gyfoes o'r DU).

**Opsiynau ffilm a'u ffocws**

Rhaid i bob dysgwr astudio **tair** ffilm ar gyfer y gydran hon, gan ddewis **un** o bob un o'r adrannau canlynol:

**Adran A:** rhaid astudio un o'r ffilmiau byd-eang canlynol nad ydynt yn Saesneg:

- *Slumdog Millionaire* (Boyle, Y DU, 2008), 15
- *District 9* (Blomkamp, De Affrica, 2009), 15
- *The Babadook* (Kent, Awstralia, 2014), 15
- *The Breadwinner* (Twomey, Iwerddon, 2017), 12A
- *Jojo Rabbit* (Waititi, Seland Newydd, 2019), 15

**Adran B:** rhaid astudio un o'r ffilmiau byd-eang canlynol nad ydynt yn Saesneg:

- *Tsotsi* (Hood, De Affrica, 2005), 15
- *The Wave (Gansel,* Yr Almaen, 2008), 15
- *Wadjda* (Al-Mansour, Saudi Arabia, 2012), PG
- *Girlhood* (Sciamma, Ffrainc, 2014), 15
- *The Farewell* (Lulu Wang, China/UDA, 2019), PG

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran C:** rhaid astudio **un** o'r ffilmiau cyfoes canlynol o'r DU (a gynhyrchwyd ar ôl 2010):

- *Submarine* (Ayoade, Y DU, 2010), 15
- *Attack the Block* (Cornish, Y DU, 2011), 15
- *Skyfall* (Mendes, Y DU, 2012), 12
- Blinded by the Light (Chadha, Y DU, 2019), 12A
- *Rocks (*Gavron, Y DU, 2019), 15

***Adran A: Ffilm fyd-eang Saesneg (a gynhyrchwyd y*** tu allan i UDA) – yn canolbwyntio ar naratif
Mae pum ffilm gyferbyniol ac amrywiol wedi eu gosod ar gyfer yr astudiaeth o ffilmiau byd-eang Saesneg a gynhyrchwyd y tu allan i UDA. Er enghraifft, mae Slumdog Millionaire, wrth ddweud stori dyn ifanc amddifad 18 mlwydd oed o slymiau Mumbai sy'n ennill y ferch mae'n ei charu a 20 miliwn rwpî, yn codi materion tlodi, statws a llygredd yn India yn yn negawd gyntaf yr unfed ganrif ar hugain. Ffilm nodwedd am greadur goruwchnaturiol yw The Babadook, sy'n delio â thema galar mewn ffordd ddiddorol a throsiadol. Mae *District 9* yn ffilm ffuglen wyddonol sy'n delio ag arwahanu a gorthrwm mewn ffyrdd sy'n adleisio profiadau nifer o wledydd yn ddiweddar. Animeiddiad trawiadol yw The Breadwinner sy'n dilyn stori merch sy'n byw dan reolaeth y Taliban. Comedi tywyll yw JoJo Rabbit sy'n adrodd hanes profiad un teulu o fyw yn Yr Almaen Natsïaidd

***Adran B: Ffilm fyd-eang nad yw yn Saesneg*** – yn canolbwyntio ar gynrychioliad
Mae'r ffilmiau byd-eang nad ydynt yn Saesneg yn cynnig dewis o ffilmiau, e.e. ffilmiau o Dde Affrica, China, Ffrainc, Yr Almaen a Saudi Arabia Mae *Tsotsi* yn dweud stori am droseddwr o drefi sianti Johannesburg sy'n newid ei gymeriad o ganlyniad i ddod o hyd i faban. Mae'r ffilm yn gofyn cwestiynau ynglŷn â'r berthynas rhwng troseddolrwydd ac amgylchedd cymdeithasol. Mae*The Wave* yn dweud stori ysgytwol am ganlyniadau cydymffurfio fel rhan o arbrawf ysgol yn archwilio gwreiddiau ffasgaeth. Yn Wadjda a Girlhood mae portreadau o hunaniaeth menywod ifanc Mae Wadjda yn portreadu sut mae merch ifanc yn herio awdurdod a'r cyfyngiadau cymdeithasol a diwylliannol yn Saudi Arabia gyfoes gan godi cwestiynau am rôl menywod yn y gymdeithas honno. Dilyn taith pedair menyw ifanc ddu y mae Girlhood o faestrefi Paris, gan wrthdroi'r stereoteipiau confensiynol o fenyweidd-dra Ffrengig ar hyd y ffordd.

***Adran C: Ffilm gyfoes o'r DU (ffilmiau a gynhyrchwyd ar ôl 2010)*** – yn canolbwyntio ar ansoddau esthetig ffilm
Mae'r ffilmiau o'r DU yn cynnig detholiad cyferbyniol o ffilmiau. Er enghraifft, mae *Submarine* yn tywys gwylwyr, gyda hiwmor cynnil, i fyd unigol bachgen y mae ei ddychymyg bywiog yn ffurfio sylwebaeth ar ei gariad cyntaf a'r hyn mae'n amau sydd yn berthynas sy'n datblygu rhwng ei fam a'i chyn gariad. Mae *Attack the Block yn tynnu sylw at y problemau cymdeithasol yn Llundain drefol, yn defnyddio'r genre comedi a ffuglen wyddonol i awgrymu cyffelybiaeth wleidyddol â'r bygythiadau gan estroniaid (fel Invasion of the Body Snatchers).* Mae ffilmiau Bond bron iawn wedi dod yn genre yn eu hunain ond mae *Skyfall*, gyda'i sinematograffi soffistigedig, yn rhoi acen newydd i'r ffilm gyffrous llawn digwyddiadau drwy archwilio seicoleg y berthynas rhwng rheolwr a'r sawl a reolir, rhwng M a James Bond. Drama dod i oed yw Rocks sydd hefyd yn ddathliad o Lundain aml-ddiwylliannol. Mae'n cyfuno'r esthetig gweledol realistig â defnydd amrywiol ac ystyrlon o drac sain. Drama gerdd

© WJEC CBAC Ltd.

yw Blinded by the Light sy'n symud rhwng realaeth a dihangdod i gyfleu ei neges ddyrchafol.

**Asesu**
Arholiad ysgrifenedig
1 awr 30 munud
70 marc

Bydd pob un o'r tair adran yn asesu amcan asesu 1 (AA1), y gallu i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth, ac amcan asesu 2 (AA2), y gallu i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth.   Am fwy o fanylion ar yr amcanion asesu, gweler Adran 3.

**Adran A: Ffilm fyd-eang Saesneg (a gynhyrchwyd y tu allan i UDA)**
- **Cwestiwn 1:** un cwestiwn mewn camau naill ai mewn tair neu bedair rhan*:
  - mae rhannau (a) a (b) yn asesu AA1
  - mae rhan (c), pan y'i gosodir, yn asesu AA2*.
  - bydd y rhan olaf yn asesu AA1 ac AA2 mewn ymateb ysgrifennu estynedig.
  - *Noder: bydd y gallu i archwilio a dadansoddi (AA2) yn cael ei wobrwyo'n uwch na'r gallu i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth (AA1) yn yr ymateb ysgrifennu estynedig.*

**Adran B: Ffilm fyd-eang nad yw yn Saesneg**
- **Cwestiwn 2:** un cwestiwn mewn camau naill ai mewn tair neu bedair rhan*:
  - mae rhannau (a) a (b) yn asesu AA1
  - mae rhan (c), pan y'i gosodir, yn asesu AA2*.
  - bydd y rhan olaf yn asesu AA1 ac AA2 mewn ymateb ysgrifennu estynedig.
  - *Noder: bydd y gallu i archwilio a dadansoddi (AA2) yn cael ei wobrwyo'n uwch na'r gallu i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth (AA1) yn yr ymateb ysgrifennu estynedig.*

**Adran C: Ffilm Gyfoes o'r DU (a gynhyrchwyd ar ôl 2010)**
- **Cwestiwn 3:** un cwestiwn mewn camau naill ai mewn tair neu bedair rhan*:
  - mae rhannau (a) a (b) yn asesu AA1
  - mae rhan (c), pan y'i gosodir, yn asesu AA2*.
  - bydd y rhan olaf yn asesu AA1 ac AA2 mewn ymateb ysgrifennu estynedig.
  - *Noder: bydd y gallu i archwilio a dadansoddi (AA2) yn cael ei wobrwyo'n uwch na'r gallu i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth (AA1) yn yr ymateb ysgrifennu estynedig.*

*Mewn unrhyw flwyddyn asesu, dim ond **dau** o'r tri chwestiwn a osodir fydd yn cynnwys cwestiwn rhan (c) yn asesu AA2 yn unig.

Asesir y gallu i ddefnyddio iaith ffilm arbenigol yn briodol mewn ymatebion ysgrifennu estynedig, rhan olaf pob un o'r cwestiynau 1, 2 a 3.

Gall cwestiynau gael eu seilio ar unrhyw agwedd o'r meysydd astudio craidd neu'r ffocws ychwanegol perthnasol a ddisgrifir yn fanwl yn y cyflwyniad i adran 2.

© WJEC CBAC Ltd.

## 2.3 Cydran 3

**Cynhyrchu**
Asesiad Di-arholiad
Wedi'i asesu'n fewnol, a'i cymedroli'n allanol gan CBAC
30% o'r cymhwyster (cynhyrchu, 20%, dadansoddi gwerthusol, 10%)
60 marc

**Cynnwys y pwnc**
Mae cynhyrchu yn rhan annatod o astudio ffilm. Ynghyd â datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod o ffilmiau yng Nghydrannau 1 a 2, bydd dysgwyr yn cael gwybodaeth am wneud ffilmiau, y byddant yn gallu ei chymhwyso mewn ffordd synoptig at eu cynhyrchiad terfynol. Yn benodol, mae Cydrannau 1 a 2 yn cynnig enghreifftiau o ffilmiau genre a fydd yn galluogi dysgwyr i ennill dealltwriaeth o genre, confensiynau genre a naratifau yn gysylltiedig â genres penodol, a bydd pob un o'r rhain yn llywio eu cynhyrchiad.

Gall y **cynhyrchiad** fod ar ffurf:

- **naill ai** a detholiad a ffilmiwyd o ffilm genre (**2 funud i 2½ funud**)
- **neu** ddetholiad o sgript ffilm ar gyfer ffilm genre **(800 i 1000 o eiriau)**.

Rhaid bod **sgript ffilmio** o adran allweddol o'r sgript ffilm ynghlwm wrth y sgript ffilm (tua 1 funud o amser sgrin, yn cyfateb i tua un tudalen o sgript ffilm).

Rhaid i ddysgwyr hefyd ddarparu **dadansoddiad gwerthusol** o'r cynhyrchiad (**750 i 850 o eiriau**), sy'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r cynhyrchiad mewn perthynas â ffilmiau neu sgriptiau ffilm eraill a gynhyrchwyd yn broffesiynol. I gychwyn, bydd briff y cynhyrchiad yn cael ei bennu am gyfnod o **dair** blynedd. Yn ystod yr amser hwnnw, bydd effeithiolrwydd yr ymagwedd hon yn cael ei adolygu a'i fonitro, a gellid gosod briffiau cynhyrchu dilynol am gyfnod byrrach. Bydd canolfannau'n cael gwybod am unrhyw newid i gyfnod asesu'r briff.

Bydd pob briff cynhyrchu'n cynnwys:

- dewis o genres, a fydd yn adlewyrchu'r ffilmiau genre a osodwyd yn y fanyleb
- dewis **naill ai** o adran o ffilm (e.e. ei hagoriad) **neu** o effaith cyffredinol y naratif (e.e. creu ansicrwydd neu densiwn).

Bydd gofynion y dadansoddiad gwerthusol yn aros yn ddi-newid.

Disgrifir y briff ar gyfer yr asesiad cyntaf yn ystod Haf 2023 a'r asesiad diwethaf yn ystod Haf 2026 isod. Cyhoeddir y briff ar gyfer yr asesiad cyntaf yn ystod **Haf 2027** gan CBAC ar Porth CBAC ym mis Medi 2026, ac ar yr un adeg caiff dyddiad yr asesiad terfynol ei gadarnhau.

***Amodau*** ar gyfer cwblhau cynhyrchiad

**Rhaid** i'r holl waith cynhyrchu, boed gwneud ffilmiau neu sgriptio, fod yn unigol ac yn ddangosadwy yn waith heb gymorth yr ymgeisydd ei hun. O ganlyniad, mae amodau wedi cael eu pennu ar gyfer cwblhau'r cynhyrchiad a'i asesiad gwerthusol. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- y radd o gefnogaeth gan athrawon a'r oruchwyliaeth yn ystod camau paratoi a chynhyrchu'r cynhyrchiad.
- y mesurau a gymerwyd i sicrhau dilysrwydd y cynhyrchiad a'i ddadansoddiad gwerthusol.

© WJEC CBAC Ltd.

Ar gyfer yr **opsiwn ffilmio** yn unig, caniateir cyfranogwyr a chynorthwywyr nad ydynt yn cael eu hasesu fel y nodir isod:

- rhaid i'r dysgwr unigol fod yn gyfrifol am y gwaith camera a golygu ar y ffilm fer
- gall cyfranogwyr heb eu hasesu actio yn, neu ymddangos yn, y ffilm (ond ni chaiff sgiliau perfformio eu hasesu)
- gall cynorthwywyr heb eu hasesu weithredu offer golau a/neu sain os oes angen golau neu sain annibynnol*
- rhaid i'r holl gyfranogwyr a chynorthwywyr heb eu hasesu weithio dan oruchwyliaeth y dysgwr sy'n cael ei asesu ac mae'n rhaid iddynt gadarnhau eu cyfraniad heb ei asesu ar y ddogfennaeth ddilysu berthnasol sydd ynghlwm wrth gynhyrchiad y dysgwr a asesir.

*Noder: *nid oes gofyniad penodol am i sain neu olau annibynnol gael eu defnyddio yn y cynhyrchiad a ffilmiwyd.*

Gall dysgwyr hefyd ddefnyddio deunydd nad yw'n perthyn iddynt dan yr amodau canlynol:

- gellir defnyddio trac sain o ffynonellau presennol (cerddoriaeth neu gerddoriaeth o ffilm) cyhyd â'i fod yn cael ei gydnabod ar y ffurflen berthnasol a'i ddefnyddio at ddibenion addysg yn unig.
- os rhagwelir defnydd y tu allan i ddibenion addysg yw (e.e. uwchlwytho i YouTube neu debyg), rhaid dilyn y cyfyngiadau hawlfraint arferol
- gellir defnyddio hyd at ddeg eiliad (ar y mwyaf) o ddeunydd gweledol hap gael os yw ei ddefnydd yn rhan annatod o'r detholiad o ffilm genre (a allai fod yn saethiad neu'n saethiadau y byddai'n amhosibl eu ffilmio neu'n ddarnau o ffilm hap gael fel darn o newyddion neu delwedd wedi'i gynhyrchu gan DA)
- nid yw unrhyw ddeunydd gweledol hapgael a ddefnyddir yn cael ei gynnwys yn hyd penodedig y cynhyrchiad

Rhaid cydnabod pob defnydd o ddeunydd nad yw'n perthyn i'r dysgwr ar y daflen glawr sydd ynghlwm wrth y gwaith a gyflwynir i'w asesu.

Serch hynny argymhellir bod dysgwyr:

- yn defnyddio defnydd heb hawlfraint ble bo'n bosibl
- yn cynllunio detholiadau genre nad ydynt yn dibynnu ar saethiadau amhosibl i'w ffilmio neu enghreifftiau eraill o ddarnau o ffilm hapgael.

**Cwblhau'r** cynhyrchiad

Ar gyfer cwrs astudio TGAU dwy flynedd, argymhellir bod dysgwyr yn cwblhau'r cynhyrchiad mewn cyfnod o tua **deuddeg i bedair wythnos ar ddeg** er mwyn i'r gwaith ar gyfer y cynhyrchiad a'r cydrannau arholiad gydbwyso'n briodol.
Fel y nodir uchod, cynlluniwyd y cynhyrchiad i alluogi dysgwyr i gymhwyso ynghyd ag atgyfnerthu'r dysgu yn y cwrs.

Gweler adran 3.2 am fwy o fanylion ar yr amodau ar gyfer cwblhau'r gwaith cynhyrchu.

© WJEC CBAC Ltd.

**Briff y cynhyrchiad (asesiad cyntaf, Haf 2023; asesiad olaf, Haf 2026)**

**Briff y cynhyrchiad**

Mae'n rhaid i ddysgwyr greu cynhyrchiad **unigol** yn cynnwys:

***NAILL AI***
(i) detholiad o ffilm o **un** o'r genres ffilm canlynol:

- ffuglen wyddonol
- rhamant
- arswyd
- y ffilm arddegwyr
- achos

Rhaid i'r detholiad fod ar ffurf **un** o'r opsiynau canlynol:

- agoriad y ffilm **neu**
- ddetholiad o unrhyw ran o'r ffilm sy'n cyflwyno cymeriad.

Rhaid i'r detholiad fod rhwng **2 funud** a **2 funud 30** eiliad.

***NEU***
(ii) detholiad o sgript ffilm o **un** o'r genres ffilm canlynol:

- ffuglen wyddonol
- rhamant
- arswyd
- y ffilm arddegwyr
- achos

Rhaid i'r detholiad fod ar ffurf **un** o'r opsiynau canlynol:

- agoriad y ffilm **neu**
- ddetholiad o unrhyw ran o'r ffilm sy'n cyflwyno cymeriad.

Rhaid bod y detholiad rhwng **800** a **1000 o eiriau**. Rhaid bod **sgript ffilmio** o adran allweddol o'r sgript ffilm ynghlwm wrtho (tua 1 funud o amser sgrin, yn cyfateb i tua un tudalen o sgript ffilm).

**Dadansoddiad gwerthusol**
Rhaid i ddysgwyr gwblhau dadansoddiad gwerthusol o'u cynhyrchiad o rhwng **750** a **850 o eiriau**. Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriad at:

- nodau'r detholiad o ffilm genre (y genre dewisol ar gyfer y cynhyrchiad, ei brif gynulleidfa)
- arwydd o sut mae agweddau allweddol o tua thair ffilm genre wedi dylanwadu ar y cynhyrchiad (a all gynnwys ffilmiau genre a astudiwyd yn ystod y cwrs)
- dadansoddiad o'r cynhyrchiad mewn perthynas â ffilmiau genre tebyg, a gynhyrchwyd yn broffesiynol.

*Rhaid i'r dadansoddiad gwerthusol fod ar ffurf ysgrifennu estynedig yn bennaf (yn* cynnwys is-benawdau a rhai pwyntiau bwled). *Argymhellir bod dysgwyr yn* prosesu'r gwaith, a gellir ei enghreifftio gan gipluniau neu ddetholiadau o sgript ffilm). *Yn achos detholiadau o sgript ffilm a ddefnyddir i enghreifftio'r dadansoddiad gwerthusol, ni chynhwysir y rhain yn y cyfyngiad geiriau o 750-850 o eiriau.*

***Gweler adran 3.2 am yr amodau yn ymwneud â chynhyrchu unigol a'r amodau ar gyfer cwblhau'r cynhyrchiad a'r dadansoddiad gwerthusol.***

© WJEC CBAC Ltd.

**Paratoi ar gyfer y cynhyrchiad**

Bydd dysgwyr yn astudio ffilmiau genre ar gyfer eu cwrs TGAU. Er y caiff y ffilmiau hyn eu hasesu mewn cyd-destun arholiad, maent wedi eu cynllunio i roi cyfle i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o genre, confensiynau genre a'r naratifau sy'n gysylltiedig â ffilmiau genre. Gall dysgwyr ategu hyn drwy ymchwilio i ffilmiau genre ychwanegol a'u sgriptiau ffilm wrth baratoi ar gyfer eu cynhyrchiad.

Drwy gydol eu cwrs astudio, anogir dysgwyr i gadw portffolio, a allai fod ar ffurf electronig fel blog, yn cynnwys:

- enghreifftiau o ffilmiau genre a'u confensiynau a allai lywio'u gwaith cynhyrchu (mae enghreifftiau o ffilmiau genre ar gael i'w hastudio yn yr opsiynau a osodwyd ar gyfer y chwe ffilm mae dysgwyr yn eu hastudio)
- syniadau am gymeriad(au) a naratif ar gyfer eu detholiad o genre
- enghreifftiau o sinematograffi, mise-en-scène, golygu a sain a allai lywio'u cynhyrchiad
- technegau sgript ffilm effeithiol (ar gyfer yr opsiwn sgript ffilm yn benodol)
- enghreifftiau o sgriptiau ffilmio (os ydynt yn dilyn yr opsiwn sgript ffilm).

Bydd hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn cymhwyso pob agwedd berthnasol o'u hastudiaeth yn eu cynhyrchiad, boed gwneud ffilmiau neu sgriptio. Yn ychwanegol, bydd agweddau allweddol o'r portffolio heb ei asesu hwn yn ffurfio'r sail ar gyfer y dadansoddiad gwerthusol.

***Yr opsiwn ffilmio***

Rhaid i ddysgwyr fod yn gyfrifol am y gwaith camera a golygu ar eu detholiad o ffilm genre. Gall cyfranogwyr heb eu hasesu actio yn, neu ymddangos yn y ffilm ond ni chaiff sgiliau perfformio eu hasesu yn y cynhyrchiad. Er nad oes gofyniad penodol i ddefnyddio sain neu olau annibynnol, gall cynorthwywyr nad ydynt yn cael eu hasesu weithredu offer golau a/neu sain. Fodd bynnag, rhaid i'r holl gyfranogwyr a chynorthwywyr weithio dan oruchwyliaeth y dysgwr sy'n cael ei asesu. Rhaid i athrawon ac unrhyw gynorthwywyr golau a/neu sain gadarnhau eu cyfraniad heb ei asesu ar y ddogfennaeth ddilysu berthnasol sydd ynghlwm wrth gynhyrchiad y dysgwr a asesir.

Anogir dysgwyr i ddefnyddio ystod briodol o saethiadau camera a thechnegau golygu yn eu cynhyrchiad, gan gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sinematograffi, mise-en-scène, golygu a sain.

***Yr opsiwn sgriptio***

Fel gyda'r opsiwn ffilmio, bydd dysgwyr yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sinematograffi, mise-en-scène, golygu a sain at eu cynhyrchiad sgript ffilm a'i sgript ffilmio gysylltiedig. Mae'n rhaid i ddysgwyr ddefnyddio confensiynau safonol sgript ffilm i gynhyrchu eu sgript ffilm. Yn gyffredinol cyfeirir at fformat sgript ffilm fel y gosodiad 'sgript golygfa feistr' ac mae'n cynnwys:

*Nodweddion fformat:*

- colofn sengl gydag ymylon llydan
- rhifo tudalennau dilyniannol (ar y brig ar y dde)
- mf (mwy i ddilyn) (gwaelod ar y dde)
- wedi'i chanoli ar ddeialog gydag enw'r siaradwr mewn llythrennau bras
- slycsen a sain mewn llythrennau bras
- enw'r cymeriad mewn llythrennau bras ar yr ymddangosiad cyntaf yn unig
- ffont – courier, 12 pwynt

© WJEC CBAC Ltd.

*Cynnwys:*

- pob golygfa wedi ei rhifo gyda slycsen ynghlwm
- mae'r slycsen yn cynnwys:
  - arwydd o ble mae'r weithred yn digwydd – y tu mewn neu'r tu allan (INT, neu EXT neu INT/EXT)
  - disgrifydd lleoliad
  - disgrifydd golau – DYDD neu NOS neu AMSER
- disgrifydd golygfa/gweithred (gyda disgrifiad cryno o'r cymeriad ar ei (h)ymddangosiad cyntaf)
- cyfarwyddiadau camera hanfodol (mewn llythrennau bras gyda disgrifydd golygfa) neu gyfarwyddiadau golygu hanfodol (mewn llythrennau bras, sythu ar y dde) yn unig
- y weithred i gael ei hysgrifennu yn yr amser presennol.

Dylid nodi nad yw sgriptiau ffilm yn cynnwys cyfarwyddiadau camera.

Er mwyn dangos sgiliau delweddu sy'n gyfwerth â syniadau ffilmio ar gyfer y detholiad o ffilm, mae'n rhaid i ddysgwyr sy'n cynhyrchu sgript ffilm hefyd greu sgript ffilmio ar gyfer adran allweddol o'r sgript ffilm (tua 1 funud o amser sgrin, yn cyfateb i tua un tudalen o sgript ffilm).

Er y gall, ac y mae sgriptiau ffilmio'n amrywio, rhaid defnyddio confensiynau sy'n gyffredinol safonol o ran sgript ffilmio. Rhaid i'r sgript ffilmio gynnwys:

- confensiynau safonol sgript ffilm fel y nodir uchod (wedi eu gosod ar ochr chwith y dudalen)
- cyfres wedi'i rhifo o saethiadau i ddangos sut fydd yr adran allweddol o'r sgript ffilm yn cael ei ffilmio (wedi ei gosod ar ochr dde'r dudalen)

Gall dysgwyr ategu eu sgript ffilmio gyda hyd at ddeg delwedd lonydd wedi'u tynnu'n ddigidol o saethiadau allweddol o'r gyfres sgript ffilmio. Nid yw hyn yn orfodol ac nid yw'n cael ei asesu.

Mae templed ar gyfer sgript ffilmio ar gael ar wefan Eduqas TGAU Astudiaethau Ffilm.

**Asesu**
Asesiad Di-arholiad
Wedi'i asesu'n fewnol, a'i safoni'n allanol gan CBAC
60 marc

Rhaid i ddysgwyr gyflwyno'r canlynol i'w asesu:

- y cynhyrchiad (40 marc)
- y dadansoddiad gwerthusol cysylltiedig (20 marc)
- **taflen glawr y cynhyrchiad wedi'i llenwi, a'i dilysu gan yr athro** a'r dysgwr.

Dylai dysgwyr nodi na ellir asesu gwaith heb ddilysiad priodol.

Am ragor o fanylion ar yr amodau ar gyfer asesiad di-arholiad a'i weinyddu, gweler Adran 3.2.

© WJEC CBAC Ltd.

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o elfennau o ffilm

**AA2**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o elfennau o ffilm, yn cynnwys at:
- ddadansoddi a chymharu ffilmiau
- dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hun mewn perthynas â gwaith arall a gynhyrchwyd yn broffesiynol

**AA3**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o elfennau o ffilm at gynhyrchu ffilm neu sgript ffilm.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob cydran ac am y cymhwyster yn gyffredinol.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Cydran 1** | 15% | 20% | - | 35% |
| **Cydran 2** | 15% | 20% | - | 35% |
| **Cydran 3** | - | 10% | 20% | 30% |
| **Pwysoli cyffredinol** | **30%** | **50%** | **20%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd.

## 3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

**Amodau** ar gyfer cwblhau'r cynhyrchiad a'r dadansoddiad gwerthusol

***Cynhyrchu***
Er mwyn sicrhau dilysrwydd a chymaroldeb gwaith cynhyrchu pob dysgwr, mae'n rhaid i athrawon sefydlu'r amodau canlynol ar gyfer cynhyrchu (disgrifir isod).

**Gall** dysgwyr ac athrawon wneud y canlynol:

- gall dysgwyr ddefnyddio unrhyw syniadau gwneud ffilmiau neu sgriptio maent wedi dysgu amdanynt yn ystod eu cwrs astudio a'u casglu yn eu portffolio
- gall athrawon gynnig cyngor cyffredinol ynglŷn â meysydd o welliant posibl ar gyfer cynlluniau, drafftiau neu, yn achos detholiad o ffilm, gwaith golygu cychwynnol, cyhyd bod y dysgwr yn gyfrifol am gwblhau'r holl waith.
- gall athrawon hefyd gynnig cyngor cyffredinol ynglŷn â meysydd o welliant posibl ar gyfer y cam cynhyrchu naill ai o'r ffilm neu'r sgript ffilm a sgript ffilmio enghreifftiol.

**Ni** ddylai athrawon gynnig cyfarwyddyd penodol neu fanwl o ran sut i wneud y gwelliannau posibl maent yn cynghori arnynt, neu wneud penderfyniadau creadigol dros y dysgwyr.

**Rhaid** i ddysgwyr gwblhau'r camau dilysu canlynol:

- cam 1: rhaid i ddysgwyr gyflwyno tystiolaeth o gynllunio cychwynnol i'r athro (ar ffurf syniadau amlinellol ac enghreifftiau posibl o waith i lywio'r cynhyrchiad)
- *cam 2*: rhaid i ddysgwyr gyflwyno tystiolaeth i'r athro o gynllun ar gyfer y detholiad o ffilm (er enghraifft, bwrdd stori amlinellol) neu gynllun ar gyfer y sgript ffilm (er enghraifft, drafft amlinellol a bwrdd stori drafft o adran allweddol o'r sgript ffilm)
- *cam 3:* rhaid i ddysgwyr gyflwyno tystiolaeth i'r athro o gynnydd y cynhyrchiad ar bwynt priodol yn ystod cynhyrchu (e.e. gwaith golygu neu ddrafft cychwynnol) fel y gall yr athro fod yn sicr o ddilysrwydd y gwaith
- cam 4: rhaid i ddysgwyr gadarnhau bod y gwaith camera a golygu ar y sgript ffilm a'i sgript ffilmio enghreifftiol cysylltiedig yn waith wedi'i gwblhau ei hun, heb gymorth
- cam 5: rhaid i ddysgwyr gyflwyno tystiolaeth i'r athro o gyfarwyddiadau i unrhyw gynorthwywyr nad ydynt yn cael eu hasesu sy'n darparu sain neu olau annibynnol ar gyfer cynhyrchiad ffilm. Mae'n rhaid i'r athro a'r cynorthwywyr sain a/neu olau nad ydynt yn cael eu hasesu gadarnhau bod eu rôl nad ydynt yn cael eu hasesu dan oruchwyliaeth y dysgwr a asesir.
- *Noder: ni chaiff perfformiad ei asesu. Felly nid oes rhaid i gyfranogwyr nad ydynt yn cael eu hasesu sy'n actio, neu'n ymddangos yn, y cynhyrchiad gadarnhau eu rôl.*

Nid oes rhaid i athrawon oruchwylio cynhyrchu ffilm a'i golygu, na sgript ffilm a'i sgript ffilmio yn uniongyrchol. Fodd bynnag, rhaid iddynt allu monitro ac adnabod y dilyniant rhwng holl gamau dilysu'r cynhyrchiad. Dylent fedru adnabod y dilyniant rhwng:

- tystiolaeth o gynllunio cychwynnol (cam 1)
- y cynllun neu ddrafft cyntaf (cam 2)
- tystiolaeth o olygu neu ddrafft cychwynnol o'r cam cynhyrchu (cam 3)

© WJEC CBAC Ltd.

- y canlyniad wedi'i gwblhau.

Mae'n rhaid i athrawon ymchwilio i unrhyw anghysondeb arwyddocaol rhwng unrhyw rai o'r camau a allai achosi pryder ynghylch dilysrwydd gwaith y dysgwr.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar faint o amser y gall dysgwyr ei dreulio ar y gwaith o gynllunio, datblygu a chreu eu cynhyrchiad.

***Dadansoddiad gwerthusol o'r*** cynhyrchiad
Er mwyn sicrhau dilysrwydd a chymaroldeb dadansoddiad gwerthusol yr holl ddysgwyr, mae'n rhaid i athrawon sefydlu'r amodau canlynol ar gyfer cwblhau'r dadansoddiad gwerthusol:

**Gall** dysgwyr ac athrawon wneud y canlynol:
- gall dysgwyr gyfeirio at unrhyw nodiadau, syniadau ac adnoddau perthnasol eraill ar wneud ffilmiau neu sgriptio (fel y rhai a gasglwyd ym mhortffolio'r dysgwr) wrth gwblhau eu dadansoddiad gwerthusol
- gall athrawon ddarparu cyngor cyffredinol ynghylch meysydd o welliant posibl ar gyfer **un** fersiwn drafft o'r dadansoddiad gwerthusol cyhyd bod y dysgwr yn gyfrifol am gwblhau'r holl waith.

**Ni** ddylai athrawon gynnig cyfarwyddyd penodol neu fanwl o ran sut i wneud y gwelliannau posibl maent yn cynghori arnynt, neu wneud penderfyniadau creadigol dros y dysgwyr.

**Rhaid** i ddysgwyr gwblhau'r dadansoddiad gwerthusol dan amodau dan oruchwyliaeth. Nid oes rhaid gosod amodau arholiad.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar faint o amser mae'r dysgwyr yn ei dreulio ar y dadansoddiad gwerthusol o'u cynhyrchiad.

***Cwblhau'r*** cynhyrchiad

Fel y nodir yn Adran 2.3, argymhellir bod dysgwyr yn cwblhau'r cynhyrchiad o fewn cyfnod o tua **deuddeg i bedair ar ddeg wythnos** i ganiatáu cydbwysedd priodol rhwng y gwaith ar gyfer y cynhyrchiad ac ar gyfer y cydrannau arholiad.

***Dilysu gwaith unigol*** a chadw gwaith a gyflwynwyd i'w ddilysu
Mae'n rhaid i athrawon a dysgwyr ddilysu'r ffaith fod pob un o'r amodau hyn wedi cael eu bodloni ar daflen glawr y cynhyrchiad. Nid oes angen y gwaith a gyflwynwyd i'r athro i'w ddilysu ar gyfer cymedroli ond rhaid ei gadw yn y ganolfan tan fis Rhagfyr o'r flwyddyn academaidd ar ôl cyflwyno rhag ofn y bydd angen unrhyw wiriadau cymedroli.

Mae taflen glawr y cynhyrchiad ar gael ar wefan Astudiaethau Ffilm TGAU Eduqas.

***Amau camymddwyn*** a llên-ladrad
Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:
- cyfrifoldeb y ganolfan yn y lle cyntaf yw unrhyw achosion o amau camymddwyn neu lên-ladrad (gan gynnwys camddefnyddio deallusrwydd artiffisial) Dilynwch y canllaw 'Camddefnyddio DA mewn asesiad' ar wefan Eduqas TGAU Astudiaethau Ffilm.
- os bydd y ganolfan neu'r broses gymedroli'n datgelu unrhyw achosion o gamymddwyn neu amheuaeth o lên-ladrad, cynhelir ymchwiliad ffurfiol, yn unol â gweithdrefnau cyfredol y Cydgyngor Cymwysterau

© WJEC CBAC Ltd.

- gall marciau naill ai ar gyfer y gydran neu'r cymhwyster cyfan gael eu tynnu'n ôl os profir bod camymddwyn neu lên-ladrad wedi digwydd.

## Dulliau gweithredu asesu

***Gwaith wedi'i asesu'n fewnol: asesu a safoni mewnol***
Caiff y cynhyrchiad (ffilm neu sgript ffilm genre a sgript ffilmio enghreifftiol) a'i ddadansoddiad gwerthusol eu hasesu'n fewnol yn defnyddio'r meini prawf marcio a ddisgrifir yn Atodiad B. Yn ychwanegol, bydd CBAC, yn rheolaidd, yn rhyddhau sampl o waith wedi'i asesu drwy ei wefan Eduqas i gynorthwyo athrawon gyda'u hasesu.

Mae canolfannau'n gyfrifol am safoni gwaith yr holl ddysgwyr os yw mwy nag un athro yn gyfrifol am asesu. Rhaid cwblhau hyn er mwyn sefydlu trefn restrol gytunedig ar gyfer yr holl ddysgwyr.

***Cadw at ofynion y cynhyrchiad***
Rhoddir cosb ar waith **naill ai** nad yw'n cyrraedd **neu** sy'n fwy na hyd amodedig detholiad o ffilm neu sgript ffilm.

*Detholiad o ffilm (2 funud i 2 funud 30* eiliad):

- *yn achos gwaith sy'n mynd dros uchafswm hyd y cynhyrchiad (2 funud 30 eiliad)*: dim ond y 2 funud 30 eiliad cyntaf gaiff eu hasesu.
- *gwaith sydd hyd at 15* eiliad yn rhy fyr (1 funud 45 eiliad i 1 funud 59 eiliad): rhaid i'r athro sy'n asesu'r gwaith dynnu 2 farc
- *gwaith sy'n llai nag 1 funud 45* eiliad: rhoddir marc rhwng bandiau 1 a 3 yn dibynnu ar i ba raddau mae'r dystiolaeth yn dangos bod nodau'r briff wedi cael eu bodloni ac i ba raddau mae'r confensiynau genre wedi cael eu cipio mewn ffordd barhaus.

*Detholiad o sgript ffilm (800 i 1000 o eiriau):*

- *gwaith sy'n mynd dros uchafswm hyd y gwaith cynhyrchu (1000 o eiriau):* dim ond yr 1000 o eiriau cyntaf gaiff eu hasesu.
- gwaith hyd at 100 o eiriau yn rhy fyr (rhwng 700 a 799 o eiriau): rhaid i'r athro sy'n asesu'r gwaith dynnu 2 farc
- *gwaith sy'n llai na 700 o eiriau*: rhoddir marc rhwng bandiau 1 a 3 yn dibynnu ar i ba raddau mae'r dystiolaeth yn dangos bod nodau'r briff wedi cael eu bodloni ac i ba raddau mae'r confensiynau genre wedi cael eu cipio mewn ffordd barhaus.

*Sgript ffilmio (tua 1 funud o amser sgrin, yn cyfateb i tua 1 tudalen o sgript ffilm):*

- *gwaith sy'n sylweddol fyrrach neu'n sylweddol hirach na hyd bras y sgript ffilmio:* rhoddir marc yn dibynnu ar i ba raddau mae'r dystiolaeth yn dangos bod y sgript ffilm wedi cael ei delweddu'n briodol.

*Dadansoddiad gwerthusol (750 i 850 o eiriau):*

- *gwaith sy'n mynd dros uchafswm hyd y dadansoddiad gwerthusol (850 o eiriau)*: dim ond yr 850 o eiriau cyntaf gaiff eu hasesu.
- *gwaith hyd at 75 o eiriau yn rhy fyr (rhwng 675* a 749 o eiriau): rhaid i'r athro sy'n asesu'r gwaith dynnu 2 farc
- *gwaith sy'n llai na 675 o eiriau*: rhoddir marc rhwng bandiau 1 a 3 yn dibynnu ar i ba raddau mae'r dystiolaeth yn dangos bod nodau'r briff wedi cael eu bodloni.

© WJEC CBAC Ltd.

***Cyflwyno*** marciau i CBAC

Unwaith y bydd trefn restrol o'r holl ddysgwyr wedi ei sefydlu, mae'n rhaid i athrawon neu eu swyddogion arholi gyflwyno'r holl farciau i CBAC drwy system ar-lein, trwy wefan ddiogel CBAC. Argymhellir bod hyn yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Ebrill yn y flwyddyn asesu. Unwaith y bydd y marciau wedi cael eu cyflwyno ar-lein, bydd y sampl o waith i'w gyflwyno i'r cymedrolwr ynghyd â manylion cyswllt y safonwr yn cael eu cyhoeddi. Rhaid i'r cymedrolwr dderbyn y sampl o waith erbyn dyddiad safonol ym mis Mai yn y flwyddyn asesu.

***Cyflwyno sampl i'w gymedroli***

Ar gyfer pob ymgeisydd yn y sampl dynodedig, rhaid i'r gymedrolwr dderbyn, neu allu cyrchu:

- y cynhyrchiad
- ei ddadansoddiad gwerthusol cysylltiedig
- taflen glawr wedi'i llenwi, a'i dilysu gan yr athro **a'r** ymgeisydd.

Ni dderbynnir gwaith i'w safoni heb y daflen glawr wedi'i dilysu berthnasol.

Rhaid cyflwyno'r sampl o waith a ddynodwyd ar gyfer safoni allanol i'r cymedrolwr trwy ei **uwchlwytho fel e-bortffolio yn defnyddio system ar-lein d**diogel CBAC.

Fel y nodir uchod, rhaid i'r cymedrolwr dderbyn y sampl o waith erbyn dyddiad safonol ym mis Mai yn y flwyddyn asesu.

Os nad yw'r cymedrolwr yn gallu cadarnhau asesiad y ganolfan o waith eu hymgeiswyr, efallai gofynnir am waith y garfan gyfan. Mewn achos o'r fath, mae'n rhaid i ganolfannau gyflwyno gwaith yr holl ymgeiswyr o fewn tri diwrnod o dderbyn y cais i'r swyddog arholi, yn unol â gweithdrefnau cyfredol y Cydgyngor Cymwysterau.

Os yw'r broses gymedroli yn dod i'r casgliad nad yw'r asesu gan ganolfan yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol a bennwyd gan CBAC, gall y marciau ar gyfer canolfan gael eu diwygio. Bydd manylion unrhyw addasiad, ynghyd â'r sail resymegol dros ddiwygio'r marciau, yn cael eu hesbonio yn adroddiad cymedroli'r ganolfan.

Bydd pob canolfan yn derbyn adroddiad y cymedrolwr yn darparu adborth a chyngor ar y gwaith wedi'i asesu'n fewnol a gyflwynwyd gan y ganolfan. Bydd hwn ar gael ar lein i ganolfannau ar ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau arholiad.

## Adolygiad o'r broses cymedroli

Gall canolfannau wneud cais am adolygiad o'r cymedroli. Gan fod gwaith yn cael ei asesu'n fewnol i gychwyn, rhaid i waith yr holl ddysgwyr a gynhwysir yn y sampl wreiddiol gael ei ailgyflwyno i'w adolygu yn unol â gweithdrefnau cyfredol y Cydgyngor Cymwysterau.

© WJEC CBAC Ltd.

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid cymryd yr holl asesiadau ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod mis Mai/Mehefin bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn Haf 2019.

Gall ymgeiswyr sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau ar gyfer asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll cydran Asesu Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Asesiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Os ardystiodd ymgeisydd ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, y marc o'r Asesiad Di-arholiad mwyaf diweddar sy'n cael ei drosglwyddo, heb ystyried a yw'r marc hwnnw'n uwch neu'n is (oni bai bod y marc yn absennol)

Nodir y cod cofrestru isod.

DTP Eduqas – TGAU Astudiaethau Ffilm:  C670QS

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o 1– 9, ac 9 yw'r radd uchaf.  Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD A

### Ysgrifennu arbenigol ar ffilmiau a osodwyd i'w hastudio

Bydd CBAC yn cyhoeddi ar wefan Eduqas rhestr o ysgrifennu arbenigol i'w astudio mewn perthynas â'r ffilm annibynnol ddewisol o UDA. Bydd yr ysgrifennu arbenigol yn cynnwys tair ffynhonnell:

- un ffynhonnell ar sinematograffi
- un ffynhonnell ar ffilm annibynnol o UDA
- un adolygiad o ffilm (gosodir un adolygiad ar bob un o'r pum ffilm annibynnol a osodwyd gan CBAC).

Cynigir canllawiau i athrawon gan CBAC ar sut gellir defnyddio ysgrifennu arbenigol i lywio astudiaeth dysgwyr o'u ffilm annibynnol ddewisol o'r UDA.

# ATODIAD B

### Llinell amser y datblygiadau allweddol mewn ffilm a thechnoleg ffilm

Mae'r llinell amser ganlynol yn darparu'r sail i astudiaeth ddysgwyr TGAU o'r datblygiadau arwyddocaol mewn ffilm a thechnoleg ffilm. Bydd CBAC yn cynnig cyfarwyddyd i athrawon ar adnoddau allweddol sy'n briodol ar gyfer TGAU.

| | |
|---|---|
| 1895 | Y delweddau byw cyntaf (y brodyr Lumière) |
| 1895 – 1927 | Datblygiad sinema fud o'r ffilmiau byrion cynnar i brif ffilmiau hyd llawn, ac yn ystod y cyfnod hwn gosodwyd sylfeini gwneud ffilmiau – e.e. sinematograffi, egwyddorion golau a golygu dilyniant ac ystod eang o mise-en-scène, yn cynnwys ffilmio ar leoliad |
| 1920au | Ymddangosiad graddol diwydiant ffilmiau Hollywood wedi'i integreiddio'n fertigol, a sefydlwyd mewn i bum prif stiwdio erbyn 1930 (Paramount, Warner Bros, Loew's/MGM, Fox [Twentieth Century Fox yn 1935] a Radio Keith Orpheum [RKO]) a thair stiwdio lai (Columbia, Universal a United Artists) – y 5 Mawr a'r 3 Bychan, fel y'u gelwir |
| 1927 | Alan Crosland: *The Jazz Singer*, gydag Al Jolson yn serennu – y brif ffilm gyntaf gyda thrac sain |
| 1935 | Rouben Mamoulian: *Becky Sharp,* prif ffilm gyntaf The Technicolor Corporation mewn lliw 'tri stribyn' |
| 1948 | Achos llys gan Paramount yn atal stiwdios rhag bod yn berchen ar bob cam o'r broses gynhyrchu, dosbarthu ac arddangos ('integreiddio fertigol') a arweiniodd, yn y 1950au, at ymddangosiad cynhyrchu ffilmiau'n annibynnolac asiantau'n cynhyrchu ffilmiau i stiwdios Hollywood eu dosbarthu a'u harddangos |
| 1950au | Ymddangosiad technolegau 3D a sgrin lydan fel ymateb i dwf teledu a'r dirywiad cyfatebol mewn mynychu'r sinema |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| Diwedd y 1950au | Er nad y rhain oedd yr enghreifftiau cyntaf, cynhyrchwyd camerâu ysgafn, cludadwy oedd yn briodol ar gyfer defnydd llaw (a gafodd effaith uniongyrchol ar wneud ffilmiau dogfennol ac a gafodd eu defnyddio gan genhedlaeth newydd o gyfarwyddwyr yn Ffrainc – y cyfarwyddwyr 'ton newydd' Ffrengig) |
| 1970au | Datblygwyd technoleg Steadicam gan y sinematograffydd Garrett Brown (dyfais sefydlogi ar gyfer camerâu llaw i gadw'r ddelwedd yn 'llonydd' wrth gadw symudiad llyfn). Cyflwynwyd yn gyntaf, 1975 |
| 1990au | Defnydd mwy eang o ddelweddau drwy gymorth cyfrifiadur. Arweiniodd at symudiad oddi wrth 'effeithiau arbennig' a ffilmiwyd at effeithiau gweledol a grëwyd yn ddigidol yn ystod ôl-gynhyrchu ac at ddelweddu drwy gymorth cyfrifiadur (CGI) o ran cymeriadau mewn ffilmiau |

**Yn ogystal â'r uchod (1895-1990au), bydd y datblygiadau canlynol mewn technoleg ffilm a ffilm (1995-2018) yn cael eu hasesu o 2024 ymlaen.**

| | |
|---|---|
| 1995 | Y cartwn hyd nodwedd a gynhyrchwyd ar gyfrifiadur cyntaf – Toy Story a gyfarwyddwyd gan Jon Lasseter ar gyfer Pixar Animation Studios |
| 2000au | Y dechnoleg sydd ar gael i bobl gyffredin yn cymryd camau mawr ymlaen oherwydd datblygiad camerâu ysgafn a thechnoleg ffonau symudol, wnaeth arwain at gynnydd mewn 'ffilmiau dinasyddion' |
| 2007 | Lansio Netflix – y gwasanaeth ffrydio cyfreithiol cyntaf ar gyfer ffilm a'r teledu |
| 2010au | Rhyddhau ffilmiau hyd nodwedd llwyddiannus wedi'u saethu'n gyfangwbl ar I-phone yn awr – ymhlith rhai nodedig mae Tangerine (Baker, 2015) ac Unsane (Soderberg, 2018) |
| 2017 | Safleoedd ffrydio a llwytho i lawr ffilm a theledu megis Netflix, Sky, Amazon ac Apple yn pasio'r gwerthiannau DVD am y tro cyntaf gan gynyddu o 23% mewn blwyddyn |
| 2018 | Avengers: Infinity War oedd y ffilm Hollywood gyntaf i gael ei saethu'n gyfan gwbl ar gamerâu IMAX |

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD C

**CYDRAN 3: Gridiau marcio**
**Cynhyrchu (gwneud ffilmiau a sgriptio)**

<table>
<tr><th colspan="3">Cynhyrchu: gwneud ffilmiau<br>Grid marcio</th></tr>
<tr><th colspan="3">AA3: Cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o elfennau o ffilm at gynhyrchu ffilm genre neu sgript ffilm (20%)</th></tr>
<tr><th>Band</th><th>Gwneud ffilmiau: cymhwyso elfennau strwythurol<br>(genre a naratif)<br>25 marc</th><th>Gwneud ffilmiau: cymhwyso elfennau allweddol<br>(sinematograffi, golygu a sain)<br>15 marc</th></tr>
<tr><td>5</td><td>21-25 marc<br>• Gallu ardderchog i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau perthnasol at ddetholiad o ffilm genre<br>• Confensiynau genre perthnasol yn cael eu cipio'n briodol iawn.<br>• Cymeriad(au), naratif a mise-en-scène (gosodiad, propiau a gwisgoedd) priodol iawn ar gyfer y genre perthnasol.*<br>*Cydnabyddir y cyfyngiadau o ran ffilmio mewn sefydliad addysgol ar lefel TGAU ond dangosir ymgais ddyfeisgar i greu ymdeimlad o osodiad, propiau a gwisgoedd priodol ar gyfer band 5.</td><td>13-15 marc<br>• Gallu ardderchog i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sinematograffi, golygu a sain at gynhyrchu detholiad o ffilm genre.<br>• Detholiad o saethiadau a symudiad camera ardderchog, creadigol a phriodol iawn.<br>• Defnydd ardderchog o olygu priodol iawn, yn cynnwys trac sain.</td></tr>
<tr><td>4</td><td>16-20 marc<br>• Gallu da i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau perthnasol at ddetholiad o ffilm genre.<br>• Confensiynau genre perthnasol yn cael eu cipio'n briodol.<br>• Detholiad da o gymeriad(au), naratif a mise-en-scène (gosodiad, propiau a gwisgoedd) priodol ar gyfer y genre perthnasol.*<br>*Cydnabyddir y cyfyngiadau o ran ffilmio mewn sefydliad addysgol ar lefel TGAU ond dangosir ymgais dda i greu ymdeimlad o osodiad, propiau a gwisgoedd priodol ar gyfer band 4.</td><td>10-12 marc<br>• Gallu da i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sinematograffi, golygu a sain at gynhyrchu detholiad o ffilm genre<br>• Detholiad o saethiadau a symudiad camera da, priodol.<br>• Defnydd da o olygu priodol, yn cynnwys trac sain.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **11-15 marc**<br>• Gallu boddhaol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau genre perthnasol at ddetholiad o ffilm genre<br>• Confensiynau genre perthnasol yn cael eu cipio'n rhesymol briodol.<br>• Detholiad boddhaol o gymeriad(au), naratif a mise-en-scène (gosodiad, propiau a gwisgoedd) rhesymol addas ar gyfer y genre perthnasol.*<br>*Cydnabyddir y cyfyngiadau o ran ffilmio mewn sefydliad addysgol ar lefel TGAU ond dangosir ymgais foddhaol i greu ymdeimlad o osodiad, propiau a gwisgoedd priodol ar gyfer band 3. | **7-9 marc**<br>• Gallu boddhaol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sinematograffi, golygu a sain at gynhyrchu detholiad o ffilm genre<br>• Detholiad o saethiadau a symudiad camera boddhaol, rhesymol briodol.<br>• Defnydd boddhaol o olygu rhesymol briodol, yn cynnwys trac sain. |
| **2** | **6-10 marc**<br>• Gallu sylfaenol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau genre perthnasol at ddetholiad o ffilm genre.<br>• Arwydd sylfaenol bod confensiynau genre wedi cael eu cipio, ond nid bob amser yn briodol.<br>• Detholiad sylfaenol o gymeriad(au), naratif a mise-en-scène (gosodiad, propiau a gwisgoedd) ar gyfer y genre priodol, ond nid bob amser yn briodol.*<br>*Cydnabyddir y cyfyngiadau o ran ffilmio mewn sefydliad addysgol ar lefel TGAU adnabyddus ond bydd ymgais sylfaenol i greu ymdeimlad o osodiad, propiau a gwisgoedd yn amlwg gyfer band 2. | **4-6 marc**<br>• Gallu sylfaenol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sinematograffi, golygu a sain at gynhyrchu detholiad o ffilm genre.<br>• Detholiad o saethiadau a symudiad camera sylfaenol, ac nid bob amser yn briodol.<br>• Defnydd sylfaenol o olygu, yn cynnwys trac sain, ond nid bob amser yn briodol. |
| **1** | **1-5 marc**<br>• Gallu cyfyngedig i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau perthnasol at ddetholiad o ffilm genre.<br>• Arwydd cyfyngedig bod confensiynau genre wedi cael eu cipio, yn briodol yn achlysurol yn unig.<br>• Detholiad cyfyngedig o gymeriad(au), naratif a mise-en-scène (gosodiad, propiau a gwisgoedd) priodol ar gyfer y genre perthnasol, yn briodol yn achlysurol yn unig.<br>*Cydnabyddir y cyfyngiadau o ran ffilmio mewn sefydliad addysgol ar lefel TGAU adnabyddus ond bydd ymgais gyfyngedig i greu ymdeimlad o osodiad, propiau a gwisgoedd yn amlwg ar gyfer band 1. | **1-3 marc**<br>• Gallu cyfyngedig i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sinematograffi, golygu a sain at gynhyrchu detholiad o ffilm genre.<br>• Detholiad o saethiadau a symudiad camera cyfyngedig, yn briodol yn achlysurol yn unig.<br>• Defnydd cyfyngedig o olygu, yn cynnwys trac sain, yn briodol yn achlysurol yn unig. |
| | **0 marc**<br>Ni chyflwynwyd cynhyrchiad na thystiolaeth fod unrhyw agweddau o gynhyrchu yn bodloni unrhyw feini prawf a osodwyd. | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cynhyrchu: sgript ffilm a sgript ffilmio enghreifftiol<br>Grid marcio | | |
|---|---|---|
| **AA3: Cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o elfennau o** ffilm at gynhyrchu ffilm genre neu sgript ffilm (20%) | | |
| **Band** | **Sgript ffilm a sgript ffilmio enghreifftiol: elfennau strwythurol o ffilm (genre a naratif)<br>25 marc** | **Sgript ffilm a sgript ffilmio enghreifftiol: elfennau allweddol o ffilm (sinematograffi, golygu a sain)<br>15 marc** |
| **5** | **21-25 marc**<br>• Gallu ardderchog i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau genre perthnasol at ddetholiad o sgript ffilm genre a sgript ffilmio enghreifftiol, gysylltiedig.<br>• Defnydd ardderchog o fformat sgript ffilm (slycsen, disgrifiad cymeriad byr a deialog) i gipio confensiynau genre perthnasol yn briodol iawn.<br>• Detholiad ardderchog o gymeriad(au), naratif a mise-en-scène (gosodiad, propiau a gwisgoedd) priodol iawn ar gyfer y genre perthnasol. | **13-15 marc**<br>• Gallu ardderchog i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sinematograffi, golygu a sain at gynhyrchu detholiad o sgript ffilm genre a sgript ffilmio enghreifftiol, gysylltiedig.<br>• Detholiad o saethiadau a symudiad camera ardderchog, creadigol a phriodol iawn a ddangosir drwy’r sgript ffilmio.<br>• Defnydd ardderchog o olygu priodol iawn, yn cynnwys trac sain, a ddangosir trwy’r sgript ffilmio. |
| **4** | **16-20 marc**<br>• Gallu da i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau genre perthnasol at ddetholiad o sgript ffilm genre a sgript ffilmio enghreifftiol, gysylltiedig.<br>• Defnydd da o fformat sgript ffilm (slycsen, disgrifiad cymeriad byr a deialog) i gipio confensiynau genre perthnasol yn briodol.<br>• Detholiad da o gymeriad(au), naratif a mise-en-scène (gosodiad, propiau a gwisgoedd) priodol ar gyfer y genre perthnasol. | **10-12 marc**<br>• Gallu da i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sinematograffi, golygu a sain at gynhyrchu detholiad o sgript ffilm genre a sgript ffilmio enghreifftiol, gysylltiedig.<br>• Detholiad o saethiadau a symudiad camera da, priodol a ddangosir drwy’r sgript ffilmio.<br>• Defnydd da o olygu priodol, yn cynnwys trac sain, a ddangosir trwy’r sgript ffilmio. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **11-15 marc**<br>• Gallu boddhaol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau genre perthnasol at ddetholiad o sgript ffilm genre a sgript ffilmio enghreifftiol, gysylltiedig.<br>• Defnydd boddhaol o fformat sgript ffilm (slycsen, disgrifiad cymeriad byr a deialog) i gipio confensiynau genre perthnasol yn rhesymol briodol.<br>• Detholiad boddhaol o gymeriad(au), naratif a mise-en-scène (gosodiad, propiau a gwisgoedd) priodol ar gyfer y genre perthnasol. | **7-9 marc**<br>• Gallu boddhaol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sinematograffi, golygu a sain at gynhyrchu detholiad o sgript ffilm genre a sgript ffilmio enghreifftiol, gysylltiedig.<br>• Detholiad o saethiadau a symudiad camera boddhaol, rhesymol briodol a ddangosir drwy'r sgript ffilmio.<br>• Defnydd boddhaol o olygu rhesymol briodol, yn cynnwys trac sain, a ddangosir trwy'r sgript ffilmio. |
| **2** | **6-10 marc**<br>• Gallu sylfaenol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau genre perthnasol at ddetholiad o sgript ffilm genre a sgript ffilmio enghreifftiol, gysylltiedig.<br>• Defnydd sylfaenol o fformat sgript ffilm (slycsen, disgrifiad cymeriad byr a deialog) i gipio confensiynau genre perthnasol, nid bob amser yn briodol.<br>• Detholiad sylfaenol o gymeriad(au), naratif a mise-en-scène (gosodiad, propiau a gwisgoedd) ar gyfer y genre priodol, ond nid bob amser yn briodol. | **4-6 marc**<br>• Gallu sylfaenol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sinematograffi, golygu a sain at gynhyrchu detholiad o sgript ffilm genre a sgript ffilmio enghreifftiol, gysylltiedig.<br>• Detholiad o saethiadau a symudiad camera sylfaenol, ac nid bob amser yn briodol, a ddangosir drwy'r sgript ffilmio.<br>• Defnydd sylfaenol o olygu priodol, yn cynnwys trac sain, ac nid bob amser yn briodol, a ddangosir drwy'r sgript ffilmio. |
| **1** | **1-5 marc**<br>• Gallu cyfyngedig i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau genre perthnasol at ddetholiad o sgript ffilm genre a sgript ffilmio enghreifftiol, gysylltiedig.<br>• Defnydd cyfyngedig o fformat sgript ffilm (slycsen, disgrifiad cymeriad byr a deialog) i gipio confensiynau genre perthnasol, yn briodol yn achlysurol yn unig.<br>• Detholiad cyfyngedig o gymeriad(au), naratif a mise-en-scène (gosodiad, propiau a gwisgoedd) priodol ar gyfer y genre perthnasol, yn briodol yn achlysurol yn unig. | **1-3 marc**<br>• Gallu cyfyngedig i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sinematograffi, golygu a sain i gynhyrchu detholiad o sgript ffilm genre a sgript ffilmio enghreifftiol, gysylltiedig.<br>• Detholiad o saethiadau a symudiad camera cyfyngedig, yn briodol yn achlysurol yn unig, a ddangosir drwy'r sgript ffilmio.<br>• Defnydd cyfyngedig o olygu, yn cynnwys trac sain, yn briodol yn achlysurol yn unig, a ddangosir drwy'r sgript ffilmio. |
| | **0 marc**<br>Ni chyflwynwyd cynhyrchiad na thystiolaeth fod unrhyw agweddau o gynhyrchu yn bodloni unrhyw feini prawf a osodwyd. | |

© WJEC CBAC Ltd.

**Cynhyrchiad (dadansoddiad gwerthusol)**

| **Dadansoddiad Gwerthusol o'r** Cynhyrchiad: **ffilm** neu sgript ffilm a sgript ffilmio enghreifftiol<br>**Grid marcio** | | |
|---|---|---|
| **AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o elfennau o** ffilm i ddadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunan **mewn perthynas â gwaith arall a gynhyrchwyd yn broffesiynol (10%)**<br>**20 marc** | | |
| **Band** | **Gwneud ffilmiau** | **Sgript ffilm a sgript ffilmio enghreifftiol** |
| | **17-20 marc** | |
| **5** | • Gallu ardderchog i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau genre perthnasol at ddadansoddi a gwerthuso'r detholiad o ffilm genre.<br>• Gallu ardderchog i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o waith camera a golygu at ddadansoddi a gwerthuso i ba raddau mae'r detholiad o ffilm genre yn bodloni ei nodau a'i brif gynulleidfa.<br>• Gallu ardderchog i ddadansoddi a gwerthuso cyflawni'r detholiad o ffilm mewn perthynas â detholiadau ffilm eraill a gynhyrchwyd yn broffesiynol. | • Gallu ardderchog i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiynau genre perthnasol at ddadansoddi a gwerthuso detholiad o sgript ffilm genre a'i sgript ffilmio enghreifftiol.<br>• Gallu ardderchog i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau sgriptio (slycsen, creu ymdeimlad o gymeriad, cyfleu cymeriad a gweithred trwy ddeialog a gweithredu ar y sgrin) a sylweddu sgript ffilmio at ddadansoddi a gwerthuso i ba raddau mae'r detholiad o ffilm genre yn bodloni ei nodau a'i brif gynulleidfa.<br>• Gallu ardderchog i ddadansoddi a gwerthuso cyflawni'r detholiad o sgript ffilm a'i sgript ffilmio enghreifftiol mewn perthynas â detholiadau ffilm eraill a gynhyrchwyd yn broffesiynol. |
| | **13-16 marc** | |
| **4** | • Gallu da i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiynau genre perthnasol at ddadansoddi a gwerthuso detholiad o sgript ffilm genre.<br>• Gallu da i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o waith camera a golygu at ddadansoddi a gwerthuso i ba raddau mae'r detholiad o ffilm genre yn bodloni ei nodau a'i brif gynulleidfa.<br>• Gallu da i ddadansoddi a gwerthuso cyflawni'r detholiad o ffilm mewn perthynas â detholiadau ffilm eraill a gynhyrchwyd yn broffesiynol. | • Gallu da i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiynau genre perthnasol at ddadansoddi a gwerthuso detholiad o sgript ffilm genre a'i sgript ffilmio enghreifftiol.<br>• Gallu da i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau sgriptio (slycsen, creu ymdeimlad o gymeriad, cyfleu cymeriad a gweithred trwy ddeialog a gweithred ar y sgrin) a sylweddu sgript ffilmio at ddadansoddi a gwerthuso i ba raddau mae'r detholiad o ffilm genre yn bodloni ei nodau a'i brif gynulleidfa. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| | | • Gallu da i ddadansoddi a gwerthuso cyflawni'r detholiad o ffilm mewn perthynas â detholiadau ffilm eraill a gynhyrchwyd yn broffesiynol. |
| **3** | **9-12 marc** | |
| | • Gallu boddhaol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau genre perthnasol at ddadansoddi a gwerthuso'r detholiad o ffilm genre.<br>• Gallu boddhaol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o waith camera a golygu at ddadansoddi a gwerthuso i ba raddau mae'r detholiad o ffilm genre yn bodloni ei nodau a'i brif gynulleidfa.<br>• Gallu boddhaol i ddadansoddi a gwerthuso cyflawni'r detholiad ffilm mewn perthynas â detholiadau ffilm eraill a gynhyrchwyd yn broffesiynol. | • Gallu boddhaol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiynau genre perthnasol at ddadansoddi a gwerthuso detholiad o sgript ffilm genre a'r sgript ffilmio enghreifftiol.<br>• Gallu boddhaol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau sgriptio (slycsen, creu ymdeimlad o gymeriad, cyfleu cymeriad a gweithred trwy ddeialog a gweithred ar y sgrin) a sylweddu sgript ffilmio at ddadansoddi a gwerthuso i ba raddau mae'r detholiad o ffilm genre yn bodloni ei nodau a'i brif gynulleidfa.<br>• Gallu boddhaol i ddadansoddi a gwerthuso cyflawni'r detholiad o ffilm mewn perthynas â detholiadau ffilm eraill a gynhyrchwyd yn broffesiynol. |
| **2** | **5-8 marc** | |
| | • Gallu sylfaenol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau genre perthnasol at ddadansoddi a gwerthuso'r detholiad o ffilm genre.<br>• Gallu sylfaenol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o waith camera a golygu at ddadansoddi a gwerthuso i ba raddau mae'r detholiad o ffilm genre yn bodloni ei nodau a'i brif gynulleidfa.<br>• Gallu sylfaenol i ddadansoddi a gwerthuso cyflawni'r detholiad o ffilm mewn perthynas â detholiadau ffilm eraill a gynhyrchwyd yn broffesiynol. | • Gallu sylfaenol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiynau genre perthnasol at ddadansoddi a gwerthuso detholiad o sgript ffilm genre a'i sgript ffilmio enghreifftiol.<br>• Gallu sylfaenol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau sgriptio (slycsen, creu ymdeimlad o gymeriad, cyfleu cymeriad a gweithred trwy ddeialog a gweithred ar y sgrin) a sylweddu sgript ffilmio at ddadansoddi a gwerthuso i ba raddau mae'r detholiad o ffilm genre yn bodloni ei nodau a'i brif gynulleidfa.<br>• Gallu sylfaenol i ddadansoddi a gwerthuso cyflawni'r detholiad o sgript ffilm mewn perthynas â detholiadau ffilm eraill a gynhyrchwyd yn broffesiynol. |

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr><td rowspan="2">1</td><td colspan="2">1-4 marc</td></tr>
<tr><td><ul><li>Gallu cyfyngedig i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r confensiynau genre perthnasol at ddadansoddi a gwerthuso'r detholiad o ffilm genre.</li><li>Gallu cyfyngedig i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o waith camera a golygu at ddadansoddi a gwerthuso i ba raddau mae'r detholiad o ffilm genre yn bodloni ei nodau a'i brif gynulleidfa.</li><li>Gallu cyfyngedig i ddadansoddi a gwerthuso cyflawni'r detholiad o ffilm mewn perthynas â detholiadau ffilm eraill a gynhyrchwyd yn broffesiynol.</li></ul></td><td><ul><li>Gallu cyfyngedig i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiynau genre perthnasol at ddadansoddi a gwerthuso detholiad o sgript ffilm genre a'i sgript ffilmio enghreifftiol.</li><li>Gallu cyfyngedig i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau sgriptio (slycsen, creu ymdeimlad o gymeriad, cyfleu cymeriad a gweithred trwy ddeialog a gweithred ar y sgrin) a sylweddu sgript ffilmio at ddadansoddi a gwerthuso i ba raddau mae'r detholiad o ffilm genre yn bodloni ei nodau a'i brif gynulleidfa.</li><li>Gallu cyfyngedig i ddadansoddi a gwerthuso cyflawni'r detholiad o ffilm mewn perthynas â detholiadau ffilm eraill a gynhyrchwyd yn broffesiynol.</li></ul></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">0 marc<br>Ni chyflwynwyd cynhyrchiad na thystiolaeth fod unrhyw agweddau o gynhyrchu yn bodloni unrhyw feini prawf a osodwyd.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.